

CANU GWERIN

(FOLK SONG)



38 - 2015

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Elusen gofrestredig rhif 259772

SWYDDOGION 2014–15

Llywydd: D. Roy Saer

Is-Lywyddion

Dr Osian Ellis

Dr Meredydd Evans (m. 2015)

Phyllis Kinney

Buddug Lloyd Roberts

Cadeirydd

Ann Saer

Is-Gadeirydd

Gwenan Gibbard

Aelodau

Angharad Jenkins (2012)

Emma Lile (2012)

Myron Lloyd (2012)

Trefor Puw (2011)

Ben Ridler (2014)

Morfudd Sinclair (2013)

Menna Thomas (2012)

Ysgrifennydd Cyffredinol:

Dr Rhiannon Ifans

Rhandir, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EQ

Ffôn: 01970 828719

www.canugwerin.com

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:

Dr Rhidian Griffiths

Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

Ffôn: 01970 610160

e-bost: rhcgriffiths@btinternet.com

Golygydd y cylchgrawn *Canu Gwerin*

Dr Rhiannon Ifans

Cofnodion y Cyfarfod Blynnyddol, 28 Medi 2014

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn ystod y Gynhadledd Flynyddol yng Ngwesty Fron Olau, Dolgellau. Croesawyd yr aelodau gan yr Is-gadeirydd, Gwenan Gibbard. Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney, Ann Saer, Hilda Hunter, Angharad Jenkins, Einir Wyn Jones, Emma Lile, Meinir McDonald, a Trefor Puw.

Paratowyd mantolen fanwl gan y Trysorydd, a rhoddodd esboniad pellach ar ambell bwynt perthnasol. Derbyniwyd y fantolen a diolchwyd i Dr Rhidian Griffiths am ei waith trylwyr. Diolchwyd i gyfranwyr y rhifyn cyfredol o *Canu Gwerin* am eu gwaith safonol, ac am addysgu a difyrro eu cynulleidfa ar yr un pryd. Nodwyd gwerthfawrogiad o gynhadledd 2014 ar gyfrif y darlithoedd amrywiol a draddodwyd, a natur hyfryd y gynhadledd.

Bydd yr Athro E. Wyn James, Swyddog y Wefan, yn cyfarfod â Nigel Callaghan yn fuan gyda golwg ar ddysgu sut i newid ac ychwanegu at ddeunydd y wefan, a rhoi'r caneuon gwerin a ddewisir ar gyfer cystadlaethau Eisteddfod y Fenni 2016 arni. Cytunodd Gwenan Gibbard i agor tudalen Gweplyfr, a diweddarau'r tudalen yn wythnosol.

Mrs Myron Lloyd a Gwenan Gibbard sy'n cynrychioli CAGC ar Ymddiriedolaeth Nansi Richards, a chyflwynwyd adroddiad ar eu gwaith gan Mrs Myron Lloyd. Ni chynhaliwyd cystadleuaeth am yr Ysgoloriaeth eleni oherwydd trafferthion ariannol. Penderfynwyd bod y Gymdeithas yn cyfrannu £500 i'r gronfa yn dilyn cais am arian gan ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Nansi Richards. Cafwyd cefnogaeth i hynny, ynghyd â pheth gwrthwynebiad ar sail y ffaith fod rhai telynorion buddugol yn derbyn hyfforddiant clasurol gyda'r arian, yn hytrach na chael hyfforddiant i berfformio cerddoriaeth werin. Penderfynwyd bod y cynrychiolwyr yn nodi'n gryf fod angen newid cyfansoddiad Ymddiriedolaeth Nansi Richards i roi hwb i gerddorion gael hyfforddiant traddodiadol, a thrwy hynny barchu enw Nansi Richards. Diolchwyd i Myron ac i Gwenan am eu gwaith.

Dafydd Idris sy'n cynrychioli CAGC ar bwyllgor Tŷ Cerdd hyd fis Hydref 2014 a diolchwyd iddo yntau am ei waith clodwiw. Buddug Lloyd Roberts, Gwenan Gibbard, Dafydd Idris, Einir Wyn Jones a Rhiannon Ifans sy'n cynrychioli CAGC ar Banel Alawon Gwerin yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolchwyd iddynt am eu gwasanaeth.

Penderfynwyd peidio â chymryd stondin yn iwert Tŷ Gwerin yn Eisteddfod Meifod 2015, ond yn hytrach gael presenoldeb yno drwy gyfrwng perfformiadau ar y llwyfan, a gosod deunyddiau ar fwrdd **trac** sydd â chyfrifoldeb dros hyrwyddo buddiannau'r Gymdeithas. Gobeithir cael lle amlycach ar y rhaglen ym Meifod, ac amserlen fwy manteisiol. Bydd Darlith Goffa Amy Parry-Williams 2015 yn trafod alawon gwerin y Wladfa, a bydd nifer o bobl yn dod ynghyd i ganu a chyflwyno.

Diolchwyd i'r Athro E. Wyn James am ei gyfraniad hael i'r Gymdeithas yn ystod ei gyfnod ar y Pwyllgor Gwaith. Etholwyd Ben Ridler yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

Oherwydd yr ailstrwythuro yn Sain Ffagan ni fydd curadur arbenigol bellach ar y casgliadau cerddorol. Penderfynwyd holi Sain Ffagan i weld beth yw eu cynlluniau o ran sicrhau bod pobl yn cael cymorth i edrych ar y deunyddiau.

MANTOLEN

1 MAI 2014 – 30 EBRILL 2015

DERBYNIADAU	£	TALIADAU	£
Mewn llaw, 1 Mai 2014:			
Cyfrif cyfredol	8324.38	Gweinyddiaeth	487.18
Cyfrif CAF	8729.43	Cynhadledd 2014	2456.20
Tanysgriadau	1596.00	Argraffu a chyhoeddi	5258.00
Rhodd	100.00	Tâl darlithydd	100.00
Cynhadledd 2014	1646.85	Ymddiriedolaeth Nansi	500.00
Gwerthiant llyfrau	881.94	Rhoddion er cof	100.00
Breindaliadau	4170.92	Gwobr J Lloyd Williams	100.00
Incwm buddsoddiad*	815.31	Mewn llaw, 30 Ebrill 2015:	
Llog CAF	13.35	Cyfrif cyfredol	8564.02
		Cyfrif CAF	8742.78
		Llai sic heb ei chyflwyno	- 30.00
	<u>26278.18</u>		<u>26278.18</u>

*Gwerth y buddsoddiad yn 'Charifund' (sy'n cynnwys Cronfa Goffa Amy Parry-Williams) ar 31 Mawrth 2015 oedd £18,488.92.

Rhidian Griffiths
Trysorydd

Datganiad yr Archwiliwr

Ardystir bod y cyfrifon uchod yn unol â'r llyfrau a'r gwarantau a gyflwynwyd i mi a'r wybodaeth a roddwyd i mi, ac mae gweddill yr arian yn y banc a'r buddsoddiad yn 'Charifund' wedi ei wirio gennyf.

Gorffennaf 2015

W. Islwyn Davies, FFA, ACEA, FMAAT

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Elusen gofrestredig rhif 259772

SWYDDOGION

Llywydd: D. Roy Saer

Is-Lywyddion

Dr Osian Ellis

Dr Meredydd Evans

Phyllis Kinney

Buddug Lloyd Roberts

Cadeirydd

Ann Saer

Is-Gadeirydd

Gwenan Gibbard

Aelodau

Angharad Jenkins (2012)

Emma Lile (2012)

Myron Lloyd (2012)

Trefor Puw (2011)

Ben Ridler (2014)

Morfudd Sinclair (2013)

Menna Thomas (2012)

Ysgrifennydd Cyffredinol:

Dr Rhiannon Ifans

Rhandir, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EQ

Ffôn: 01970 828719

canugwerin.com

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:

Dr Rhidian Griffiths

Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

Ffôn: 01970 610160

e-bost: rhcgiffiths@btinternet.com

Golygydd y cylchgrawn *Canu Gwerin*

Dr Rhiannon Ifans

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd: Dr Rhiannon Ifans

Argraffu: Y Lolfa

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: £10.00
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £12.00
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £3.00
(Student membership)

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-Môr, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2HX
(01970) 610160

Llun y clawr: Dr Chris Grooms, Texas
Ffotograffydd: Keith Morris

Rhifyn 38 – 2015

Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
Journal of the Welsh Folk-Song Society

Golygyddol	5
Datrys dirgelwch ‘Carol y Swper’	
Casglu, diogelu a dathlu: Amgueddfa Werin Cymru a’r traddodiad canu gwerin	15
(Darlith Goffa Amy Parry-Williams 2014)	
Emma Lile	
Iolo Morganwg: clefs and queries	33
Chris Grooms	
Teulu Alawon ‘Mêl Wefus’ a’r carol plygain:	42
‘Y Carol Mawr i’w ganu ar <i>Hope to Have</i>’	
Nigel Ruddock	
Cerddoriaeth i ddwy garol blygain	54
Martin Davies a Hugh Gwynne	
Levi Gibbon, fy hen hen hen dad-cu	61
Sarah Lewis	
John Lloyd Williams, prifathro Garndolbenmaen: rhai atgofion	78
Eleanor Roberts	
Coffâd: Dr Meredydd Evans	83
Rhidian Griffiths	
Llythyr at y Golygydd	85
Christopher Graham Carter	
Cynhadledd Fron Olau 2014	88
Diolch i Mrs Elinor Roberts a Mr Elwyn Griffiths am y lluniau o Gynhadledd 2014	

Golygyddol

Datrys dirgelwch ‘Carol y Swper’

Gwnaeth wanwyn caled eleni ar sawl cymuned Gymreig. O blith ein cymuned ni yma fe gollwyd un oedd yn Is-lywydd, yn ymchwilydd, yn berfformiwr, yn anogwr, yn ffrind; un yr oedd pawb mewn perthynas-enw-cyntaf ag ef, ac nid hyd yn oed hynny, yr oedd rhan o'i enw'n ddigon: Merêd. Diolch i Dr Rhidian Griffiths am y coffâd i Dr Meredydd Evans ar dudalen 83. Bydd y rhifyn nesaf o *Canu Gwerin* yn gyfan, yn deyrnged bellach iddo.



Llan: Einion Dafydd

Roedd Merêd yn driw iawn i'w ardal ac i'w gymdogion yng Nghwmystwyth, lle bu'n byw am flynyddoedd lawer ar ôl ymddeol. Gadawodd ei farc ar yr ardal drwy ddysgu Cymraeg i lawer o drigolion di-Gymraeg Cwmystwyth a'r fro, drwy gefnogi traddodiadau'r ardal, a chefnogi digwyddiadau a sefydliadau ei fro fabwsiedig. Gweithiodd yn galed i gadw drysau'r capel ar agor, a threfnodd nosweithiau diddan yn y festri ar nifer o wahanol bynciau. Ac fe heidiodd ei ffrindiau a'i gydnabod i'w helpu. 'Ddoi di draw i'r Cwm i gadw noson 'r hen galon?' Sut allai neb ei wrthod? Roeddwn i lawr ar ei restr i drafod caneuon Ffolant Cymraeg. Pan gamais dros y trothwy i'r festri, '... a duda rwbath am y canu plygain tra ti wrthi'. Eto, sut allai neb ei wrthod?

Bu ymweld â'r plygeiniau yn un o'm hoff bleserau yn ystod y gaeafau diwethaf hyn. Un o'r ffyrdd hawsaf o edrych ymlaen at y Nadolig yw drwy'r carolau, ac yng Nghymru mae gennym ni ein brîd ein hunain o garolau Nadolig, sef y carolau plygain. Cyhoeddir yn y rhifyn hwn alaw newydd ar eiriau un o'r hen garolau traddodiadol, carol sy'n anodd ffitio alaw ar ei mesur; diolch i Martin Davies amdani. Cyhoeddir yma hefyd alaw newydd arall, o waith Hugh Gwynne, ar fesur mwy modern. Ceir trafodaeth yn ogystal ar 'Mêl Wefus', alaw draddodiadol nad yw'n cael ei chysylltu'n aml â'r traddodiad plygain, ond y cenid ambell garol arni serch hynny.

At ei gilydd, beirdd gwlad oedd yn cyfansoddi carolau plygain, ac mae'n rhaid talu teyrnged i'r sir sy'n lletya'r Eisteddfod eleni am sicrhau bod cymaint o'r hen

garolau ar glawr a chadw, ac am gynnal y traddodiad o'u canu. Beirdd gwlad dyffrynnoedd sir Drefaldwyn oedd nifer o'r cyfansoddwyr, ac amaethwyr y cymoedd hynny oedd nifer o'r hen gantorion. Bu'r cynheiliaid traddodiad hyn yn canu'r carolau'n ddefosiynol am flynyddoedd cyn i neb feddwl am eu casglu a'u cyhoeddi. Yn wir, byddai hynny'n anathema i wir garolwr plygain. O'r herwydd, mae llawer o'r carolau wedi mynd i'r bedd i ganlyn yr hen garolwyr.

Er imi fwynhau canu'r hen garolau, roedd un broblem yn cnoi. Y traddodiad yw mai'r dynion sy'n cloi'r plygain drwy ganu 'Carol y Swper'. Arferai plygain Llanfihangel-yng-Ngwynfa, sef y Blygain Fawr a gynhelir ar ail nos Sul y flwyddyn, ddod i ben gyda sain y clochydd, Edward Watkin, yn canu 'Carol y Swper', ac mae'r arfer wedi lledu nes bod pob plygain y gwn i amdani yn cloi hefo'r garol honno. Ac os nad ydych chi wedi'i chlywed hi erioed, mae gwledd yn eich aros. Y traddodiad yw mai'r dynion hynny sydd wedi canu yn y plygain, a dim ond y dynion, sy'n canu'r garol. Mae pob dyn sydd wedi cymryd rhan, fel unawdydd, neu'n rhan o barti neu gôr, yn mynd ymlaen ac yn canu 'Carol y Swper'. Maen nhw'n canu'n angerddol am y llawenydd gwastadol sy'n dod yn eiddo i'r sawl sydd wedi byw bywyd a gysegrwyd i'r Duw Goruchaf; ar y diwedd yn deg, wedi gorffen pob peth, bydd swper neithior yr Oen yn disgwyl y saint yn y nefoedd. Mae'r plygeinwyr yn mwynhau canu am y wledd hon a baratoir ar gyfer dydd y cymod; pwysleisir bod yn rhaid dianc at Grist cyn delo dydd angau, a bydd dwylo'r un fu dan hoelion yn derbyn ei bobl i'r wledd dragwyddol:

Mae heddiw'n ddydd cymod a'r swper yn barod,
A'r bwrdd wedi ei osod, O brysiwn.
Mae'r dwylaw fu dan hoelion yn derbyn plant afradlon
I wlad y Ganaan nefol, i wleda yn dragwyddol.
Amen, Amen. Boed moliant byth, Amen.
Haleliwia i'r Meseia sy'n maddau byth. Amen.

Onid pwy gyfansoddodd y geiriau, a phwy gyfansoddodd yr alaw? Roeddwn yn hen gyfarwydd â'r gyfrol *Telyn Seion* (Caernarfon, 1850), lle cyhoeddwyd 'Carol y Swper' (tt. 37–9), ac felly roedd yn amlwg ei bod yn perthyn i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar yr hwyraf. Yr hyn oedd wedi mynd ar ddisberod oedd enw awdur: fe'i cyhoeddwyd yn ddienw. Bûm yn chwilio'n ddyfal am yr enw coll, yn holi hwn a'r llall, yn bodio drwy lyfrau llychlyd mewn amryfal lyfrgelloedd, ond yn ofer. Ond 'caffed amynedd ei pherffaith waith'.

Mae'r hen air yn argymhell amynedd ac fe'i profwyd yn gyngor da.

Roeddwn yn eistedd yn eglwys Llanfihangel-yng-Ngwynfa yn aros i wasanaeth y plygain ddechrau. Cefais bwt ar f'ysgwydd, a chopi sol-ffa o 'Carol y Swper' yn fy llaw – gydag enw'r awdur arno. Diolch felly i John Lewis, aelod o Barti'r Penrhyn, am ddod â diwedd i'm penbleth. Mae John yn un o nifer bychan o aelodau Parti'r Penrhyn (ardal Penrhyn-coch yng Ngheredigion) sy'n dod o stoc gadarn o gantorion plygain traddodiadol. Bu tad John, sef Myfyr Lewis, yn canu mewn triawd gyda Rhiannon, ei wraig, ac Elizabeth Floyd; pan dderbyniodd ei phriod, Graham Floyd, alwad i fod yn weinidog yn Ninbych fe ymunodd Elizabeth Evans â'r Lewisiaid cerddgar. Yn ddiweddarach bu Myfyr Lewis yn aelod o Barti Pen-y-groes gyda William Humphreys a Glyn Davies, ac wedyn bu'n aelod o Barti Llanrhaeadr-ym-Mochnant gyda David Francis a Sam Davies, Fferm Banhadla. Tipyn o gantor.

A rhag ofn eich bod chithau hefyd wedi bod yn pendroni am flynyddoedd pwy a gyfansoddodd 'Carol y Swper', dyma'r enw sydd ar y copi sol-ffa: Richard Owen 'Ael Haearn Hir'. A minnau'n ymwybodol o fethiannau cyhoeddwy'r a golygyddion, roeddwn yn gyndyn o greu'r haerid heb gael cadarnhad o'i gywirdeb. Wedi dyfal chwilota daeth gwiriad i'r gair, ac mae'n dda gen i fedru dweud bod Richard Owen (1773– 4 Mai 1860), neu Aelhaearn Hir, yn Fonwysyn: fe'i ganwyd yn ffermdy'r Parlwr, ym mhlwyf Llanfachraeth, ar Ynys Môn. Dyma amaethwr o fardd gwlad unwaith eto'n taro deuddeg ar y llwyfan plygeiniol.

Cyhoeddwyd erthygl goffa i Richard Owen gan y Parchedig John Rowlands, Cwmafon, yn *Seren Gomer* (1863), tt. 241–58, ac mae'r sylwadau a ganlyn yn seiliedig ar yr erthygl honno i raddau helaeth.

Ganwyd Richard Owen yn fab i Owen Jones (cymerodd Richard enw bedydd ei dad yn gyfenw) a Margaret Prichard (a gadwodd ei henw morwynol yn unol ag arfer pobl Môn ar y pryd): ei fam oedd un o aelodau cyntaf y Methodistiaid yng nghymdogaeth Llanfachraeth. Priododd Richard Owen yn weddol ifanc ag Elinor Owen, ond bu farw Elinor gan adael Richard â thri o blant i'w magu. Ni fu'n hir cyn priodi am yr eildro, y tro hwn â Jane Thomas, merch fferm Mochdre yn Llanfachraeth. Bu farw tad Richard Owen yn 1818 ac yn unol ag amodau'r les fe olynodd Richard ei dad yn y Parlwr a threuliodd weddill ei fywyd yno. Bu

farw ar 4 Mai 1860, wedi dioddef strôc ym mis Ebrill 1855 a'i gwanychodd yn fawr, ac a'i gwnaeth yn analluog i gerdded am bum mlynedd olaf ei fywyd.

Gŵr byr o gorff oedd 'yr Hen Ael' fel y'i gelwid, a chanddo wyneb crwn, gwengar. Bu sawl un yn awyddus i wybod pam y dyfarnwyd iddo'r enw barddol 'Ael Haearn Hir', ac mae'r Parchedig John Rowlands yn treulio cryn amser yn esbonio'r posibiladau, ond gan gyfaddef yn y diwedd nad yw'n rhy siwr:

Erbyn dodi pob peth at eu gilydd, – ystyr y geiriau, eu cyssylltiad â'u gilydd, ac ymddangosiad dyn allanol yr hen fardd, methwyf a chanfod dim mor debyg ag iddo gael yr enw oddiwrth yr eiliau gwirsaid, hirion, y rhai fel enfys oeddynt yn hanner cylchu ei lygaid siriol. (t. 249)

Yr oedd Richard Owen yn gymeriad addfwyn, serchog. Nid oedd yn siaradwr cyhoeddus o fath yn y byd, ond roedd gyda'r gorau am wrando, a phan siaradai roedd ganddo'r ddawn i ddweud llawer mewn ychydig eiriau.

Yn 1810, pan oedd yn 27 oed, y trodd at y Bedyddwyr. Fe'i hargyhoeddwyd fod yn rhaid iddo '*gael* crefydd' a gwneud proffes bersonol, ac felly y bu. O ganlyniad fe'i bedyddiwyd gan Christmas Evans mewn llyn bychan wrth gefn ei dŷ, a bu'n odiaeth o ffyddlon i achos y Bedyddwyr yn Llanfachraeth ar hyd ei fywyd. Er nad oedd yn cymryd rhan yn gyhoeddus mewn cyrddau gweddi a chyrddau siarad, bu'n athro Ysgol Sul ar ddosbarth o blant brwd am flynyddoedd lawer. O'i blant lluosog ei hun, gwnaeth pob un broffes o ffydd yng Nghrist, ac eithrio un.

Er bod Richard Owen yn ddyn mwyn a thawedog, eto roedd yn ddyn egwyddorol gadarn ac yn amddiffynnol iawn o hawliau'r unigolyn. Meddai ei gofiannydd yn *Seren Gomer* (t. 247): 'Annichon oedd ei brynu, ei ddychrynu, neu ei wenieithio i wneyd dim yn groes i'r hyn a gredai oedd yn iawn.' Ar drothwy etholiad seneddol, disgwyliai'r meistri tir i'w tenantiaid bleidleisio dros yr un ymgeisydd ag y pleidleisient hwy. Eglwyswr o Dori oedd meistr tir Richard Owen, ond rhyddfrydwr o anghydfurfiwr oedd Richard ei hun. Er i denantiaid y gymdogaeth addo i'w gilydd y byddent yn sefyll dros eu hegwyddorion ac yn pleidleisio i'r Chwig, dim ond Richard Owen a gadwodd at ei air. O ganlyniad anfonodd y meistr tir ddynion i'r Parlwr i weld a allent weld bai ar ddulliau

Richard Owen o redeg y fferm er mwyn iddynt fedru torri'r les. Ni welwyd yr un bai. Nid oedd Richard Owen wedi troseddu yr un o amodau'r les, a bu'n rhaid gadael llonydd i'r tenant llariaidd ffermio'r tir.

Cyhoeddir yn erthygl (led wallus) T. Morris Owen, 'Ael Haearn, bardd yr ateb parod' a gyhoeddwyd yn y *Western Mail* (10 Ionawr 1936) bedwar caniad ffraeth, ac un englyn teimladwy, o waith Richard Owen. Mae blas anecdot ar ambell stori sy'n hebrwng y darnau hyn, ond maent yn werth eu hadrodd yma serch hynny. Y stori gyntaf yw'r un sy'n adrodd hanes cymdoges i Richard Owen yn dod ato i gwyno bod un o'i foch wedi dianc i'w gardd a bwyta rhes o bys. Canodd y bardd fel hyn:

Rhaid cael llyffethair gortyn
I'w rhoi am goes y mochyn,
Rhag iddo fynd ar ormod brys
I fwyta dy bys di, Catrin!

Adroddir amdano hefyd yn cyfarfod â phorthmon ceffylau o Lanfaelog oedd yn tywys ceffyl i'w werthu yn ffair Bodedern. Roedd Aelhaearn ar berwyl tebyg, a thrawodd fargen â'r porthmon yn y fan a'r lle, a chyfnewid ceffyl am geffyl. Ond wedi i'r bardd edrych yn fanylach, 'cafodd mai unllygeidiog ydoedd ac na welai ond ychydig iawn â'r llygad arall chwaith':

Ifan hir Llanfaelog
Roes imi farch dallgeibiog;
Fe gafodd yntau am ei waith
Hen geffyl saith mwy diog.

Pan ddaeth Robin ap Gwilym Ddu i Fôn i areithio ar ddirwest, ni pherswadiwyd mo Richard Owen. Meddai:

Ni fûm i 'rioed eto'n di total,
'Rwy'n dewis cael potio mewn pwyll,
A byw yn ddyn gonest ddi-gynnen,
Rhag ofn fod mewn dirwest rhyw dwyll.

"CYDGANED DYNOLIAETH,"

Carol Nadolig.

Y Geiriau gan
RICHARD OWEN (Ael Hŷarn Hir), Llanfawr.

Y Gerddoriaeth gan
MAURICE ROBERTS, Rhosddu,
Gwrecsam.

DOE G. *Moderato.*

.s.	d	:d	.d	m	r	d	f	m	m	s	f	m	r
1.Oyd	gan -	ed dyn	ol -	hwr	gwarod-	ig -	sath						
A	ohân	Ha-le-	hwr	-	hwl	fr Gôr-	uch -	a, Mawr					
.m	s ₁	:s ₁ s ₁	s ₁ .f ₁	f ₁ s ₁	s ₁	:s ₁ s ₁	s ₁	:s ₁ .t ₁					
.d	m	:m m	d	:d r	d	:d .d	m	r	d	s			
2.Cawd	le -	su mewn	pres -	eb hwr	lled	tragwydd-	ol -	deb, yn					
Haul	spawr	y Oyl-	iawn-deu	a	lled	y gorth-	ym -	der, yn					
.s.	x	.	d			:d .d	d	:d .s ₁					

1	:s	f	m	r	:m	f	m	r	s				
	mag-	lun -	iaeth	leu	leu	-	ni;	Death					
	sh Jud-	e -	a heb				t ₁	: - r					
.d	:d .t ₁	d	:r	:d .d									
f	:s .s	s	:s	f									
ol	y ddi-	har -	heb o'i	her	-		wydd,	yn					
fab	- an bach	ty'n	- er mawr	ty'n	-		ydd,	yn					
f	:m .r	d	:t ₁	:d .l ₁	s ₁	: -	s ₁	: - r ₁					

r	s	:m	d	f	.l	:s	f	m	r	m			
treff	y mag-	lun -	iaeth	leu	leu	-	ni;	Death					
i	sh Jud-	e -	a heb				t ₁	: - r					
t	:d	:d	d	:d .d	d								
s	:m	:s .s	l	:f	:s	f	m	r	m				
ol	y ddi-	har -	heb o'i	her	-		wydd,	yn					
fab	- an bach	ty'n	- er mawr	ty'n	-		ydd,	yn					
s ₁	:d ₁ .m ₁	f ₁ .r ₁	:m ₁ .l ₁	s ₁	: -		d						

r	s	:m	d	f	.l	:s	f	m	r	m			
treff	y mag-	lun -	iaeth	leu	leu	-	ni;	Death					
i	sh Jud-	e -	a heb				t ₁	: - r					
t	:d	:d	d	:d .d	d								
s	:m	:s .s	l	:f	:s	f	m	r	m				
ol	y ddi-	har -	heb o'i	her	-		wydd,	yn					
fab	- an bach	ty'n	- er mawr	ty'n	-		ydd,	yn					
s ₁	:d ₁ .m ₁	f ₁ .r ₁	:m ₁ .l ₁	s ₁	: -		d						

Yr ail dro.

r	s	:m	d	f	.l	:s	f	m	r	m			
treff	y mag-	lun -	iaeth	leu	leu	-	ni;	Death					
i	sh Jud-	e -	a heb				t ₁	: - r					
t	:d	:d	d	:d .d	d								
s	:m	:s .s	l	:f	:s	f	m	r	m				
ol	y ddi-	har -	heb o'i	her	-		wydd,	yn					
fab	- an bach	ty'n	- er mawr	ty'n	-		ydd,	yn					
s ₁	:d ₁ .m ₁	f ₁ .r ₁	:m ₁ .l ₁	s ₁	: -		d						

Yr ail dro.

r	s	:m	d	f	.l	:s	f	m	r	m			
treff	y mag-	lun -	iaeth	leu	leu	-	ni;	Death					
i	sh Jud-	e -	a heb				t ₁	: - r					
t	:d	:d	d	:d .d	d								
s	:m	:s .s	l	:f	:s	f	m	r	m				
ol	y ddi-	har -	heb o'i	her	-		wydd,	yn					
fab	- an bach	ty'n	- er mawr	ty'n	-		ydd,	yn					
s ₁	:d ₁ .m ₁	f ₁ .r ₁	:m ₁ .l ₁	s ₁	: -		d						

{	r, m, f, s : l . l	l . m : - . m	, r : m . m	f . m : - . s
	yd - yw iod Gwar-	edydd,	Fe anwyd Ceidwad	i - ni, sef
	l ₁ . r, de : r . r	r . de : - . t ₁	, , se ₁ : l ₁ . t ₁	l ₁ . l ₁ : - . r
	f, s . l, s : f . f	f . m : - . m	, , r : d . r	d . d : - . s
	sug - no bronau'r	wyryf,	Gwir Awdwr pob rhyw	an - ian,
	r . r : r, m, f, s ₁	l ₁ . l ₁ : - . se ₁	, , t ₁ : l ₁ . se ₁	l ₁ . l ₁ : - . t ₁

{	m . f : s . s	l . s : - . s	, : - . l	s : - . s
	Crist y Bren - in -	Ie - su,	Cyn dydd,	cyn dydd,
	d . , t ₁ : d . r	d . d : - . d	d : - . d	d : - . d
	s . f : m . f	m . m : - . m	f : - . f	m : - . m
	non ardd	Ta - en :	y fair,	Gair Yn
	: d . t ₁	d . d : - . d	: - . f	d : - . d

m . m : r, r, d, r	m : - . f	, f : s, s . s	f . , s : l . l
Meth'lon yn ddi -	gudd,	Fe a'wd llawenydd	ar for - eu - ddydd,
d . d : d . d	d : - . r	, d : d, d . d	r . , r : r . r
s . s : s, f, m, f	s : - . d	Pharo yn gosod	ar - no
: d . d . d	t ₁ : - . d	d, d . d	f ₁ . , f ₁ : f ₁ . f ₁

{	l : s . f	m : - . m	m : - . m
	O wol - o	ddid	ddydd,
	d : d . r	d : - . d	d : - . d
	f : s . l	s : - . s	s : - . s
	I'w bur - o	yn	pair,
	f ₁ : m ₁ . f ₁	s ₁	d : - . d

Ball.

{	l : m . r	d : - . d	d : - . d
	O wol - o	ddid	ddydd,
	l ₁ : t ₁ . l ₁	s ₁	s ₁ : - . s
	r : s . f	m : - . f	m : - . m
	I'w bur - o	yn	pair,
	r : d . f ₁	s ₁	d ₁ : - . d

3.—Fe anwyd ein Harglwydd deilwng had Dafydd,
 I ddydded gwadwr gwmauwn gredw;
 Bradychwyd gwad gwmau gwmau o'i ddisgybion,
 Sef Judas ddrwg, heb golw,
 Pa achos dal yr Iesu? achos ei bradychu?
 Gollfarnu Duw Jehu ynneith tyndion drwg ei donian,
 Mab Du w, Mab Duw ddrimnyg cynolryw,
 Mewn poen a dolw o hallwyr natur,
 A phob amadwr.

Un o gyfeillion Richard Owen oedd Robert John Prys ‘Gweirydd ap Rhys’. Ac yntau’n wael ei iechyd, gofynnodd i Richard ysgrifennu beddargraff iddo.

Dyma’r lle gorwedd un Robin Shôn Prys,
O dan y las garreg – ni chyfyd ar frys;
Bydd ryfedd os ceiff o drugaredd gan Dduw,
Wnaeth o ’run drugaredd â neb yn ei fyw.

Tipyn o dderyn oedd Gweirydd (yn ogystal â Richard Owen), ac efallai mai pennill crafog-ddoniol o’r fath oedd i’w ddisgwyl.

Ond er cystal rhigymwr oedd Richard, gallai hefyd gynganeddu’n gymen. Dyfynna Morris Owen englyn o’i eiddo sydd i’w weld ar garreg fedd ym mynwent capel y Bedyddwyr, Pont-yr-Erw, Llanfachraeth, carreg fedd cyfaill a ddioddefodd gystudd blin yn amyneddgar.

Cristion o galon i gyd – dyn grasol
Dan groesau ac adfyd;
Yn y Nef Cristion hefyd,
Ac yn ei fedd gwyn ei fyd.

Enillodd Aelhaearn Hir wobwr yn Eisteddfod fawr Bodedern gyda’r englyn hwn i’r Cristion.

Cadwyd sawl cerdd arall o waith Richard Owen: marwnad i’w gydnabod Robert Roberts mewn pymtheg o benillion wyth llinell, a nifer o gerddi yn *Eurgrawn Môn*. At hynny fe ganodd ‘Cân Misoedd y Flwyddyn’ ar y mesur ‘Y Morwr Mwyn’, a ‘Cerdd yr Hen Wŷr’; argraffwyd y ddwy gerdd hyn mewn pamffledyn gan John Jones Llanrwst rywbyrd rhwng 1825 ac 1865. Sgwrs rhwng bardd a henwr ar gyfrif ei golled lem yn colli pob un o’i blant yw’r gyntaf, ac ar ddiwedd y gerdd nodir mewn mydryddiaeth weddol ddi-fflach fod yr henwr ei hun yn marw. Mae cerdd y misoedd yn rhoi pennill o chwe llinell yr un i bob un o’r deuddeng mis, ac yn cloi fel hyn (golygwyd y testun o ran orgraff ac atalnodi):

Mis Rhagfyr, rhew ac eira oer,
Cais am dy stafell glyd:
Ni wnaiff effeithiau haul na lloer
Ond peswch mawr a'r cryd:
Ar ddiwedd hwn na fyddwn drist,
Nesáu mae dydd Nadolig Crist.

Ffermwr oedd Richard Owen, ac roedd yn hen gyfarwydd â gwylio hynt y misoedd a'r tymhorau. Ond yn rhinwedd ei swyddogaeth yn fardd eisteddfodol aeth ei awen ag ef i diroedd amrywiol.

Dechreuodd gyfathrachu yn ieuanc â'r awen, a daeth yn fardd pur adnabyddus ymysg y werin. Bu rhai o'i ganeuon yn boblogaidd iawn, megis "Deuddeng mis y flwyddyn" a'i gân fuddugol i'r "Hen Lanc" yn Eisteddfod y Wyddgrug, 1834. Ymysg ei fuddugoliaethau eisteddfodol eraill y mae pryddest "Buddioldeb yr Argraff-wasg," Bryngwran, 1842; a phryddest y "Proffwyd Samuel," Llanfachraeth, 1855. Ysgrifennodd lawer i "Seren Gomer." Anrhegwyd ef â phâr o syll-wydrau gan Gymreigyddion Llundain yn 1843, am ei lafur llenyddol.

R. Môn Williams, *Enwogion Môn* (Bangor, 1913), t. 83.

Unig fai Richard Owen, fe ymddengys yn ôl ei gofiannydd yn *Seren Gomer*, oedd nad oedd erioed wedi 'myfyrio athroniaeth na grammadeg yr iaith Gymraeg' (t. 249). Oherwydd hynny nid oedd Richard Owen yn hyderus fod ansawdd ei farddoniaeth yn ddigon safonol. Arferai roi ei waith i John Rowlands edrych drosto a'i gywiro pan oedd hwnnw'n fachgen ifanc ym Môn. Ond er cymaint ei ddiffyg hyder ieithyddol, câi Richard Owen fwynhad mawr o farddoni. Meddai John Rowlands amdano (t. 250):

Ymddengys na fyddai byth yn fwy yn ei elfen farddonol nâ phan yn darlunio dyoddefiadau a marw Crist, gwerth yr aberth, a haeddiannau yr iawn, yn nghyd a rhyddhad yr euog trwyddynt; neu pan yn cyfansoddi galareb ar ol rhyw un gwir deilwng, megys yr un ar ol Christmas Evans; hefyd yn ei alar-gerdd ar longddylliad y Rothsay Castle, yn ngenau afon Menai. Yr oedd ynddo allu i alaru, a mawrygu gwerth.

Mae llinellau cyntaf y dyfyniad uchod, fe ddichon, yn awgrymu'r rheswm pam y canwyd cymaint ar y Garol Fawr dra enillgar yn y plygeiniau dros y cenedlaethau. Fe'i cyhoeddwyd (ynghyd ag enghreifftiau eraill o waith barddol Richard Owen) ar derfyn yr ysgrif goffa, ond am ryw reswm dim ond naw o'r deg pennill gwreiddiol a argraffwyd. Mae'r teitl yn ddadlennol: 'Y ganlynol sydd Garol Nadolig, ar yr hon y canwyd llawer yn Llanfachraeth, o bumtheg i ugain mlynedd yn ol', ac mae'r cyfrif amser yn dechrau yn 1863. Ar sail hynny gellir dyfalu i'r garol gael ei chyfansoddi tua'r flwyddyn 1843, ac yn sicr erbyn 1848.

Ond i droi at gerddoriaeth 'Carol y Swper' cyn cloi. Dylwn nodi nad yr alaw yr ydym ni'n gynefin â hi sy'n llawforwyn i'r geiriau ar y pamffledyn hwn, ond yn hytrach gerddoriaeth a gyfansoddwyd gan Maurice Roberts, Rhos-ddu, Wrecsam, mewn cyghanedd i bedwar llais. Os hon oedd yr alaw a luniwyd yn wreiddiol ar gyfer 'Carol y Swper', tybed pryd y'i newidiwyd hi am yr un gyfoes?

Darlith Goffa Amy Parry-Williams Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Gâr Awst 2014¹



CASGLU, DIOGELU A DATHLU: AMGUEDDFA WERIN CYMRU A'R TRADDODIAD CANU GWERIN

Emma Lile

Braint aruthrol i mi yw derbyn gwahoddiad Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru i gyflwyno Darlith Goffa flynyddol y Fonesig Parry-Williams, neu 'Ledi Amy', fel yr adwaenid hi'n annwyl gan aelodau'r Gymdeithas. Dyma unigolyn oedd yn awdurdod cenedlaethol ar caneuon gwerin Cymraeg, ac un a weithiodd yn ddiflino i'w casglu a'u cofnodi dros gyfnod o ddeugain mlynedd o wasanaeth i'r Gymdeithas yn aelod ffyddlon, yn Is-Lywydd a Llywydd. Ystyriaf fy hunan yn ffodus dros ben, fel curadur cerddoriaeth draddodiadol yn Amgueddfa Werin Cymru, i gael cyfleoedd cyson yn rhinwedd fy swydd i werthfawrogi a mwynhau *repertoire* eang y caneuon traddodiadol hyn, boed yn recordiadau sain mewn archif, neu ar ffurf perfformiadau byw o amgylch safle awyr agored Sain Ffagan. Heb os, mae'r Amgueddfa yn ddyledus iawn i Ledi Amy a'i thebyg, pobl oedd yn ysbrydoliaeth gyson i'r sefydliad o ganol yr ugeinfed ganrif ymlaen, am ymgymryd â'r broses uchelgeisiol a llafurus o gasglu, ar ffurf recordiadau sain a llawysgrifau yn bennaf, ddeunydd cerddorol yn y maes oedd unwaith mor doreithog ar lafar gwlad. Erbyn heddiw, nod yr Amgueddfa yw hybu a hyrwyddo'r caneuon bendigedig hyn a chyflwyno eu cyfoeth i gynulleidfaoedd newydd. Wedi'r cyfan, ys dywed y Fonesig Parry-Williams mewn darlith i aelodau'r Gymdeithas Alawon Gwerin yn 1963, 'nid pethau i'w cadw'n gysegredig fel creiriau' ydy'r caneuon, 'nid pethau i'w cadw nad oes dim newid i fod arnyn' nhw ... Pethau byw fuon' nhw erioed',² a dyma hefyd yw cri Sain Ffagan – ehangu, esblygu, a datblygu'r casgliadau, er mwyn sicrhau eu parhad a'u perthnasedd i genedlaethau'r dyfodol.


Mae Amgueddfa Werin Cymru yn falch eithriadol o feddu ar gasgliadau sy'n cynnig amrywiaeth cynhwysfawr o bob agwedd ar ddiwylliant y Cymry, yn hanesyddol ac yn gyfoes. O ran cerddoriaeth, ceir esiamplau godidog o ddeunydd lleisiol ac offerynnau, megis telynau, crythau a phibgyrn, sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen ac sy'n cynnig cipolwg dadlennol ar fywydau cerddorol ein cyndeidiau. Gan mai darlith ar ran Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yw hon, bydd wrth reswm felly yn cydnabod gwaith hynod werthfawr y sefydliad dros y blynyddoedd, a bwriadaf heddiw ganolbwyntio'n bennaf ar y corff o ganeuon traddodiadol sy'n chwarae rôl flaenllaw yng nghasgliadau cerddoriaeth Sain Ffagan. Casglu, diogelu a dathlu - y modd y'u casglwyd yn y lle cyntaf, sut y'u diogelwyd yn yr Archif Sain ac ar bapur, a sut y mae'r gwaith o'u hyrwyddo yn parhau i fod yn bwysig i'r Amgueddfa hyd heddiw. I'r ymwelwyr dyddiol, sy'n heidio yn eu miloedd i'r Amgueddfa Werin (un o saith o ganghennau Amgueddfa Genedlaethol Cymru), does dim dwywaith mai'r adeiladau hanesyddol sy'n hawlio'r sylw wrth iddynt grwydro o amgylch y safle awyr agored 104 o erwau. Mae yna dros 40 adeilad i gyd gyda'r mwyafrif wedi eu trawsblannu garreg wrth garreg ymhell o'u milltiroedd sgwâr gwreiddiol i warchodfa safle unigryw yr Amgueddfa. Yn gyffredinol, mynd yno i ddysgu sut yr ydym ni'r Cymry wedi byw ein bywydau dros y canrifoedd y mae'r ymwelwyr hyn: o bentref Celtaidd Oes yr Haearn ar y naill law, i dŷ teras o Ferthyr Tudful o'r 1980au ar y llall, mae'r adeiladau oll wedi eu dodrefnu yn arddull eu cyfnod, ac wrth gamu i mewn iddynt bron na allwch ddychmygu bod yna deuluoedd real yn byw a bod ynddynt o hyd. Un peth yw ailgodi cragen o dŷ a'i greiriau, peth arall yw cyflwyno'r iaith a'r diwylliant a fuasai wedi eu bywiogi – bywyd dyddiol y bobl, eu teimladau a'u hemosiynau, eu hanesion a'u straeon, eu cerddoriaeth a'u caneuon. Ond, diolch i gasgliadau llafar yr Amgueddfa, ac yn arbennig y rheiny sydd o fewn yr Archif Sain, mae yna fodd i ni ymglywed â'n cyndeidiau, ac agosáu atynt drwy glywed eu lleisiau ac unieithu â'u bywydau ac â'u profiadau.

Yn yr archif mae tystiolaeth amhrisiadwy gennym sy'n ein dysgu am gyfnod penodol yn y gorffennol ac sy'n lliwio ein gwybodaeth am fywyd ddoe a heddiw. Yn oes fodern, dechnolegol yr unfed ganrif ar hugain, lle mae dylanwadau estron yn frith ar gymdeithasau Cymraeg a Chymreig, mae mwy o angen nag erioed i'r Amgueddfa hybu a chefnogi traddodiadau cynhenid er mwyn eu cynnal a'u cadw'n fyw. Yng nghyd-destun canu gwerin, ceisia Sain Ffagan, yn bennaf drwy ei rhaglen o ddigwyddiadau tymhorol, asio seiniau newydd, cyfoes (sydd, mae'n

rhaid pwysleisio, yn aml â'u gwreiddiau mewn alawon traddodiadol), gyda chaneuon yr archif, ac wrth wneud hynny, addysgu ymwelwyr am berlau cerddorol sy'n unigryw i Gymru.

Roedd casglu deunydd yn ymwneud â diwylliant gwerin y Cymry, neu 'hynafiaethau Cymreig' fel y'u gelwid ar y pryd, yn ganolog o'r dechrau i Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a sefydlwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd, yn 1907. Heuwyd hadau Sain Ffagan yn ystod yr 1920au pan arddangoswyd, yn 1926 o dan ofalaeth yr Adran Archaeolegol, yr hynafiaethau Cymreig hyn mewn oriel gyhoeddus am y tro cyntaf. Roedd penodiad Iorwerth Cyfeiliog Peate o Lanbryn-mair, Sir Drefaldwyn, i staff yr Amgueddfa yn ystod y flwyddyn ganlynol yn arwyddocaol iawn. Crewyd adran Diwylliant Gwerin ac apwyntiwyd ef yn arbennig i'w churadu a'i hehangu i gynnwys ystod o esiamplau rhanbarthol o wrthrychau materol yn ymwneud â phob agwedd ar ddiwylliant materol y Cymry. Agorwyd oriel ddiwydiant a diwylliant gwerin (gan gynnwys cerddoriaeth) yn 1931, a dyma gartref yr offerynnau cerdd nes iddynt hwy a gweddill y casgliadau diwylliant gwerin gael eu hadleoli yn Sain Ffagan. Agorwyd Amgueddfa Werin Sain Ffagan yn 1948, ddwy flynedd ar ôl i'r castell a'r gerddi gael eu cyflwyno i'r Amgueddfa Genedlaethol gan Iarll Plymouth. Safai'r Amgueddfa awyr agored newydd hon ryw bedair milltir i'r gorllewin o Gaerdydd, yn seiliedig ar fodolau tebyg yng ngwledydd Sgandinafia megis Skansen yn Stockholm, Sweden, a agorwyd yn 1891 er mwyn gwarchod ffyrdd traddodiadol o fyw yn wyneb newidiadau cymdeithasol mawr megis diwydiannaeth.

Iorwerth Peate (1901–82) oedd Curadur cyntaf yr Amgueddfa Werin a'r gobaith yn ystod y blynyddoedd cynnar oedd adlewyrchu bywyd y Gymru wledig, a oedd, erbyn diwedd yr 1940au a thrwy'r 1950au, o dan fygythiad grymoedd megis diwydiannaeth, trefoli a Seisnigo. Yng ngeiriau Peate roedd Sain Ffagan yn 'ystordy gwybodaeth',³ yn torri tir newydd mewn sawl ffordd, nid yn unig am mai dyma'r amgueddfa werin gyntaf ym Mhrydain, ond hefyd am ei bod yn canolbwyntio'n benodol ar fywyd dyddiol pobl gyffredin. Yn ogystal, dyma un o'r sefydliadau cyntaf yng Nghymru i weithredu'n ddwyieithog. Yn ôl Peate, pwrpas amgueddfa werin oedd:



Iorwerth Peate

cynrychioli bywyd a diwylliant cenedl; yn egluro crefftau a chelfyddydau ... gwaith y genedl gyfan a'r gymdeithas i gyd gan gynnwys yn y darlun weithgareddau'r meddwl a'r ysbryd – seremonïol, drama, dawns a cherddoriaeth – yn gystal â'r llaw.⁴

Erbyn yr 1940au, roedd casgliad eang a chynhwysfawr o offerynnau cerdd eisoes ym meddiant Amgueddfa Cymru. Serch hynny, nid oedd arbenigwr ar y staff i ofalu amdanynt, a chyffesodd Peate sawl tro ar bapur nad cerddor ydoedd wrth ei grefft, ond, yn hytrach, leygwr oedd â chwilfrydedd am hanes yr offerynnau brodorol, yn y gobaith y byddai ysgolheigion cerddorol yn ymddiddori ynddynt ac yn ymchwilio ymhellach. Yn 1947 cyhoeddodd Peate yr erthygl 'Welsh Musical Instruments' yn y cylchgrawn Saesneg *Man*, lle cyflwynodd y delyn, y crwth a'r pibau i'r darllenwyr gan drafod eu gwreiddiau Cymreig. Yn ôl Peate:

much work remains to be done before their true history is known ... I have approached the problem merely as a student of material culture: if, in doing so, I have succeeded in lifting a tiny corner of the curtain which hides the past from us, it is only to reveal to others, better equipped than I, the wealth which lies beyond.⁵

Er bod pwyslais Peate ar y gwrthrychau materol, yr oedd ef, fel ei ragflaenwyr ar staff yr Amgueddfa, yn llwyr ymwybodol mai'r cam nesaf oedd cofnodi'r dystiolaeth lafar, y bobl oedd y tu ôl i'r offerynnau hyn, a'r alawon a'r caneuon cysylltiedig.

Ffurfiwyd pwyllgor gwaith amgueddfaol i drafod casglu gwybodaeth lafar yn 1955 a phenderfynwyd, yn sgil hynny, i sefydlu prosiectau recordio mewn meysydd megis tafodieithoedd, arferion, coelion, llên gwerin a chaneuon. Mynegwyd anesmwythyd mawr ar y pryd fod y dimensiwn llafar heb ei ystyried yn ddigonol ac o ganlyniad fe aethpwyd ati o ddifri i gofnodi lleisiau'r werin gyda lansiad yr 'Arolwg o Draddodiadau Llafar Cymreig' yn nhymor yr hydref 1957. Er mwyn ymgymryd â'r gwaith casglu a chofnodi, fe apwyntiwyd y tafodieithegydd Vincent H. Phillips yn aelod o'r staff ac ef oedd yn bennaf gyfrifol am ddatblygu'r Archif Sain genedlaethol pan sefydlwyd hi flwyddyn yn ddiweddarach yn 1958. Yn raddedig yn y Gymraeg o Goleg Prifysgol De Cymru a Sir Fynwy, Caerdydd, roedd Vincent Phillips a'i fryd ar ddiogelu tafodieithoedd

a thraddodiadau llafar Cymraeg ac roedd yn ymwybodol iawn fod y ffordd draddodiadol o fyw o dan fygythiad, wrth i ddiwylliant gwledig ildio i fywyd cyfoes, trefol. Wrth i'r Seisnigo cynyddol gael effaith enbyd ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, fe sylweddolodd fod natur cymdeithas yn cael ei thrawsnewid a bod angen i'r Amgueddfa Werin gasglu a chofnodi, fel mater o argyfwng, bob agwedd ar fywyd gwerin – y tafodieithoedd cynhenid, arferion a choelion, caneuon a dawnsfeydd gwerin, oedd gynt mor amlwg ym mywydau'r werin gynyddiannol. Am sawl rheswm, megis dyfodiad cyfryngau cyfathrebu gwell fel y radio a achosodd, erbyn yr 1930au, newidiadau mawr o ran y gwrando a'r traddodiad llafar, a'r gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg, fe giliodd arferion a gweithgareddau cefn gwlad. Rhaid felly oedd achub y traddodiadau llafar bregus hyn cyn iddynt fynd i ddifancoll.

Bwriad staff yr Archif Sain yn y man cyntaf oedd cofnodi atgofion y bobl oedranus hynny oedd yn cofio Cymru'r oes o'r blaen (ganwyd y siaradwr hynaf yn 1858), felly roedd hwn yn gyfle euraid i gasglu gwybodaeth wreiddiol, unigryw yn dyddio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen. Dylanwadwyd yn drwm ar Vincent Phillips a'i gydweithwyr gan sefydliadau megis y Comsiwn Llên Gwerin Gwyddelig yn Iwerddon (oedd wedi bod wrthi'n casglu'n ddiwyd ers yr 1920au) a'r Ysgol Astudiaethau Albanaidd, a agorwyd yng Nghaeredin yn 1952 a lle bu bwrilwm mawr o ran diogelu straeon, caneuon, credoau ac arferion cenedlaethol. Ar raddfa ryngwladol, roedd gwaith casglu llafar arloesol amgueddfeydd awyr agored gwledydd Sgandinafia eisoes wedi profi'n llwyddiannus. Diolch i welliannau technegol sylweddol yn natblygiad offer recordio sain, erbyn yr 1950au roedd y broses o recordio gwaith maes gymaint hwylusach. Gwell o lawer na chymryd nodiadau ar bapur oedd y gallu i dapio lleisiau – lleisiau a fyddai'n fyw i'r cenedlaethau i ddod. Heb os nac oni bai, cyfnod cyffrous oedd diwedd y 1950au a'r 1960au i staff Amgueddfa Werin Cymru o ran casglu deunydd llafar a'i ddehongli, a'i rannu maes o law drwy gyfrwng disgiau sain, cyhoeddiadau a darlithiau.

O ran hel caneuon gwerin, gosodwyd y seiliau yn yr Amgueddfa Werin gan Vincent Phillips. Crewyd Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd yn 1963 o dan ei arweinyddiaeth, a phenodwyd nifer o staff ymchwil newydd i ddarganfod gwybodaeth benodol ar bynciau arbenigol, er mwyn rhoi ffocws i'r casglu a chanoli'r deunydd. Er mai tafodieithegydd oedd Vincent Phillips o ran hyfforddiant, roedd ganddo ddiddordeb brwd yn y caneuon, a recordiwyd tua



Vincent Phillips yn recordio Evan Bevan, Pen-coed, Pen-y-bont ar Ogwr

300 ohonynt i gyd. Bu'n ymweld amryw o weithiau â'r BBC yn Llundain er mwyn gwrandao ar y caneuon Cymraeg yn y casgliadau yno, a theg dweud iddo gael ei ysbrydoli'n fawr gan ei deithiau. Yn sicr, mae gan Sain Ffagan ddyled aruthrol i sefydliadau o'r fath, a rhaid nodi pa mor arwyddocaol oedd casglu cynnar aelodau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru i'r Amgueddfa yn ystod degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif, a dyna a arweiniodd y ffordd a gosod sylfaen casglu i staff yr Archif Sain.

Ar ddydd Calan, 1963, fe ddechreuodd llywydd presennol Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, David Roy Saer, ar ei swydd yn Gynorthwydd Ymchwil yn yr Amgueddfa Werin ac rydym oll yn ddyledus tu hwnt iddo am ei waith clodwiw dros y degawd a mwy nesaf yn recordio caneuon traddodiadol ar dâp wrth iddo ymweld â rhai cannoedd o bobl gyffredin ledled y wlad. Roedd Roy Saer yn raddedig yn y Gymraeg o Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a chyfweliadau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg oedd y rhan fwyaf o'i recordiadau sain; y prif nod oedd sgwrsio gyda'r siaradwyr hynaf i ddechrau, gan mai nhw oedd â'r potensial i rannu'r deunydd llawnaf o'r cyfnod cynharaf. Wedi iddo fynychu cwrs penwythnos cyntaf Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1963, ysbrydolwyd Roy Saer i fynd allan i'r maes a recordio unigolion. Diolch yn

bennaf i broffeil cyhoeddus uchel Iorwerth Peate, roedd llawer o'r siaradwyr eisoes yn ymwybodol o brosiectiau hanes llafar yr Amgueddfa. Roedd Peate, drwy gydol ei yrfa guradurol, yn awyddus i ledi'r gair yn eang am waith casglu'r Amgueddfa, boed ar bapur fel awdur neu drwy'r cyfryngau drwy ymddangos yn aml ar y teledu a'r radio. Roedd y cyhoeddusrwydd hwn i waith yr Amgueddfa yn gymorth aruthrol i Roy Saer a welodd fod pobl yn gyffredinol, o ganlyniad i enw da Sain Ffagan, yn fwy na hapus i gydweithio gydag ef. Er mwyn lledu'r gair ymhellach o ran ei brosiect casglu, fe ymddangosodd Roy Saer ar lawer ffilm yn ystod y cyfnod, megis y rhaglen *Casglu Caneuon Gwerin yn Llŷn* gan y BBC yn 1964, a rhaglenni radio niferus, oedd un ac oll yn tynnu sylw at waith pwysig yr Amgueddfa.

Prif ddiben prosiect recordio Roy Saer oedd casglu a diogelu caneuon traddodiadol Cymraeg a Chymreig drwy eu gosod yn Archif Sain yr Amgueddfa. Bwriadai ef ymweld â phob canwr o leiaf ddwywaith. Roedd yn eu recordio ar eu haelwydydd fel rheol, yn canu caneuon eu plentynod ac yn esbonio eu cysylltiad â'u teuluoedd ac â'u ffordd o fyw. Sefydlai'r cyfarfod dechreuol agosatrwydd rhwng yr holwr a'r siaradwr ac roedd yn bwysig ar yr ymweliad cyntaf hwn i ofyn i'r canwr a fyddai'n barod i'w ganeuon gael eu gosod ar dâp. Os cytunai i hynny, aed ati i drefnu ail gyfarfod. Anaml iawn y defnyddid peiriant recordio yng nghartref unigolyn ar yr ymweliad cyntaf, rhag ofn iddo deimlo'n anghyfforddus ac ofnus o'i herwydd. Gan fod Roy Saer yn awyddus iawn i gadw'r holl broses yn anffurfiol, ni chymerai nodiadau ar bapur, ond yn lle hynny, ar ddiwedd pob sgwrs, fe ruthrai'n ôl i'w gar i gofnodi popeth a gofiai o'r cyfweiliad:

on i'n mynd nôl i'r car neu'r Land Rover ... yr Amgueddfa, p'run bynnag odd gyda fi, lawr i'r hewl o'r golwg, troi'r *engine* bant, a sgwennu nodiade. Don i ddim yn sgwennu, [yn ystod y cyfweiliad] heblaw bo fi'n cal rhywun fel athro ysgol neu rywun fel 'na neu bregethwr, lle fydde'n nhw'n fwy cartrefol bo fi'n sgwennu. Ond, gyda llawer o'r bobol hyn, on i'n meddwl, Na, dwi ishe cadw hwn yn gwbwl anffurfiol, dim hala ofon arnyn nhw, gyda dechre gweld papure a sgwennu a cofnodi fel'na. Sgwennu yn y car wnes i, sgwennu am hanner awr a deugen munud. A alla'i weud, odd hi'n syndod, wrth bo fi'n ishte'n hunan fyn 'ny, pwy mor fanwl fydden i'n cofio'r peth, ag yn ei rediad i radde heleth iawn.⁶

Recordiwyd y mwyafrif o'r sgysiau nid mewn stiwdio ond yng nghartref y siaradwr, yn y gegin gefn efallai neu'r parlwr. Nid perfformwyr cyhoeddus oedd y mwyafrif ohonynt, oedd yn gyfarwydd â chael eu recordio, ond yn hytrach cynheiliaid traddodiad goddefol oedd wedi clywed y caneuon pan oeddynt yn iau. Diolch iddynt am eu cyfraniad amhrisiadwy a hirdymor i'r broses o gronni casgliad cynhwysfawr o ganeuon gwerin ar gyfer archif yr Amgueddfa. Mewn un o'm sgysiau niferus gyda Roy am hyd a lled ei waith casglu, fe ddywedodd wrthyf:



Roy Saer â'r landrover ffyddlon!

On i'n rhoi pwys o'r mwya ar gydnabod y cantorion a'u swyddogaeth nhw. Cydnabod eu swyddogaeth nhw o fewn i'r traddodiad o ran derbyn caneuon, o ran eu cadw nhw, o ran eu trosglwyddo nhw, a'u recordio nhw i ninne ... Eu rhan nhw yn y broses o gynnal traddodiad. Ac roedd hyn yn ddyletswydd ar yr Amgueddfa Werin, yn ymrwymiad, allwch chi weud ei fod yn ymrwymiad o ran cofnodi ffynonelle, ffynonelle a tharddiad deunyddie, gneud 'ny yn gywir ac yn gyflawn ac yn wyddonol, ma hynna yn rhwym â'r sefydliad ymchwil, yn enwedig un cenedlaethol fel hwn. Os nad yn fwy na hynna, mi oedd yn oblygiad moesol tuag at y bobol odd wedi gwneud cymwynas a gwneud cymwynas yn ddi-dâl *without remuneration* fel mae Vincent yn gwneud yn yr hen adroddiade blynyddol sawl tro. Gwneud cymwynas yn ddi-dâl â'r Amgueddfa ac â'r genedl yn wir.⁷

Yn ystod ei yrfa amgueddfaol recordiodd Roy Saer tua 500 o ganeuon gwerin ac eitemau cerddorol cyffredinol di-ri sydd, heb os, yn drawstoriad eang o gerddoriaeth Cymry'r oesoedd a fu. Sylweddolodd Roy mai gweddillion y traddodiad oedd ar ôl erbyn yr 1960au, ac mai cofio nôl oedd y siaradwyr, gan fod mwyafrif y caneuon eisoes yn segur o ran defnydd dyddiol. Deffro'r cof oedd ei fwriad wrth gyf-weld, er mwyn procio atgofion pell ac ail-fyw'r gorffennol. Pobl oedd prif ffynhonnell yr Amgueddfa wrth gasglu; y wedd ddynol oedd yn bwysig, perthynas y siaradwyr gyda pherthnasau a ffrindiau a'r teimladau oedd ganddynt o berthyn i le a chymuned. Er mai gwanhau oedd y broses o drosglwyddo gwybodaeth ar lafar erbyn yr 1960au, roedd peth wmbreth gan rai unigolion o hyd i'w rannu (roedd tuag 80 o ganeuon gan y rhyfeddol Bertie Stephens o Abergorlech, sir Gaerfyrddin, a bu staff Sain Ffagan yn ei gartref sawl

gwaith i'w recordio). Cyfweiliadau hwyliog ydynt gan mwyaf sy'n agor drws y gorffennol ac yn rhoi lliw a bywyd iddo. Un elfen amlwg yn y recordiadau sain a ffilm yw agwedd y Cymry tuag at ganu – nid peth ffwrdd-â-hi, ond rhywbeth oedd angen ei baratoi'n ofalus, er enghraifft, clirio'r llais cyn dechrau, neu fabwysiadu osgo arbennig cyn dechrau datganiad. Roedd ganddynt barch amlwg tuag at y traddodiad, gan sylweddoli pa mor hen oedd cân ac yn talu teyrnged i'w cyndeidiau wrth ei chyflwyno.

Yn ystod yr 1960au a'r 1970au, teithiodd casglwyr maes yr Amgueddfa ar hyd a lled Cymru yn casglu perlau amhrisiadwy o fewn diwylliant cerddorol oedd yn prysur gael ei ddisodli gan gerddoriaeth ryngwladol a cherddoriaeth frodorol gyfoes. Fel mae'n digwydd, daw dau o'r cynheiliaid mwyaf ffrwythlon o ran y traddodiad canu gwerin o ardal sydd nid nepell o fro'r Eisteddfod yma yn Llanelli – unigolion oedd wedi eu trwytho yn y cefndir Cymreig a Chymraeg. Ganwyd y cyntaf ohonynt, sef Arthur Stanley Parry, yn 1896 yng Nghaeo, sir Gaerfyrddin. Gŵr o'r Wyddgrug yn sir y Fflint oedd ei dad, a'i fam yn enedigol o blwyf Llandyfaelog yn sir Gaerfyrddin. Pan recordiwyd ef gan yr Amgueddfa yn 1965, yr oedd wedi ymgartrefu yn y Gaerwen ar Ynys Môn. Prif fyrdwn ei sgwrs gyda Roy Saer, ei fab yng nghyfraith, oedd y caneuon Calan a ganodd pan oedd rhwng saith a naw oed tra oedd yn aros yn ardal Bryn, Llanelli, gyda'i dad-cu dros wyliau'r Flwyddyn Newydd. Bu allan sawl gwaith gyda phlant yr ardal yn canu caneuon dydd Calan, rhai Cymraeg a Saesneg, ac roedd y rheiny wedi aros ar ei gof ers ei blentyndod. Fe ganodd bob cân y tu allan i bob tŷ, cyn i'r trigolion agor y drws a'i wobrwyo gydag arian neu losin. Cariai'r plant afal bach coch ar ben tair sgiwer, gyda thamaid o gelyn ac aeron arno – dyma oedd y Calennig.




Bechgyn yn casglu Calennig yn Llangynwyd ddechrau'r ugeinfed ganrif (1920au)

Mae yna naws hamddenol, anffurfiol i'r sgwrsio, a'r siaradwr yn hapus iawn i rannu ei orffennol gyda'r holwr. Mae'n siwr fod presenoldeb y peiriant wedi effeithio ar y datganiadau i ryw raddau, ond roedd agosrwydd Roy Saer i'r canwr yn golygu nad oedd angen iddo wthio'r llais i gyrraedd cynulleidfa na'i straenio drwy ganu'n uchel. Rhan o swyn recordiadau maes yr Amgueddfa i mi, a'r hyn sy'n eu gwneud yn unigryw, yw'r elfen naturiol, y sgwrsio cynnes, y teimlad cartrefol, sy'n treiddio trwyddynt. Trwy rannu profiadau'r cantorion, rydym ni hefyd yn ail-fyw eu gorffennol. Y wefr, y cyffro – rydym gyda nhw ar stepen y drws yn canu Calennig, yng ngwasanaeth y plygain, yn nefod y Fari Lwyd.

Yr ail ganwr gwerin nodedig yr hoffwn gyfeirio ato oedd Hector Williams, o bentref Saron, ger Rhydaman, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn 1898, ac fe'i recordiwyd deirgwaith gan yr Amgueddfa yn 1967, '68 a '69. Glöwr ydoedd cyn ymddeol, fel ei dad, a chanddo ef y ddysgodd Hector reffyn o ganeuon y parhaodd i'w canu am flynyddoedd ar yr aelwyd. Roedd y caneuon yn amlwg yn bwysig iawn iddo – rhyw llyn cyswllt â'r gorffennol, a chyswllt hefyd â'i dad. Gan ei dad y clywodd y rhan fwyaf o ganeuon ac fe ganodd Hector nhw dros y blynyddoedd ar yr aelwyd. Pleser yw gwrando arno'n canu – mae'n geirio'n glir a daw'r alawon yn rhwydd iddo. Un o'i ganeuon mwyaf cofiadwy yw 'Y Bachgen Main', sef ymgom rhwng mam a merch, gyda'r naill yn dymuno dewis gŵr i'r llall, er ei bod hi eisoes wedi syrthio mewn cariad gyda llanc arall (sef bachgen main y teitl). Doedd Hector Williams ddim wedi gweld y gân mewn print erioed, dim ond ei dysgu ar lafar gan ei dad, oedd yn hoff iawn o ganu'r hen faledi. Mae mwynhad y mab wrth ei chanu i'w glywed yn amlwg yn y recordiad sain.

Yn ogystal â chofnodi hanes caneuon gwerin unigolion yn eu cartrefi, roedd polisi casglu'r Amgueddfa hefyd yn canolbwyntio ar *genres* cerddorol arbennig ar ffurf digwyddiadau cyhoeddus, torfol, oedd yn aml ynghlwm naill ai â'r capeli a'r eglwysi, neu ag arferion traddodiadol y calendr.



Hector Williams, Saron, Rhydaman

Recordiwyd esiamplau lu o gymanfaoedd pwnc, gwasanaethau plygain, yr hwyl Gymreig, y Fari Lwyd a chaneuon Calennig, i enwi dim ond rhai mathau. Rhwng 1963 a 1966 fe dreuliwyd cyfnodau sylweddol o amser yng nghanolbarth Cymru yn recordio gwasanaethau carolau plygain oedd wedi parhau yn ddi-dor mewn ardaloedd megis Llanymawddwy a Llanrhaeadr-ym-Mochnant, wedi iddynt gyrraedd brig eu poblogrwydd yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymthegfed. Er mai gwasanaethau bore Nadolig oeddynt yn wreiddiol mewn eglwysi a chapeli, erbyn y cyfnod recordio fe'u cynhelid dros holl gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Roedd y plygeiniau'n nodweddiadol am eu canu arbennig o garolau Cymraeg digyfeiliant, yn bennaf gan grwpiau o ddynion. Nod yr Amgueddfa oedd recordio'r gwasanaethau hyn yn eu lleoliadau naturiol, a dyma'r unig engrheifftiau sydd mewn bodolaeth o wasanaethau plygain cyflawn o'r cyfnod hwn. Yn yr un modd, diogelodd yr Amgueddfa ar gyfer cenhedlaethau'r dyfodol arddull o lafarganu a enwyd yn 'pwnc'. Llafarganiadau o'r Ysgrythurau oedd y math yma o ganu oedd, tan tua chanol yr ugeinfed ganrif, yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd Ysgolion Sul de-orllewin Cymru. Cofnodwyd ar dâp hefyd draddodiad yr 'hwyl', lle byddai gweinidogion yr Anghydfurfwyr yn gwau diweddebau cerddorol i mewn i'w pregethau, gan godi a gostwng eu llais megis cân pan fyddai'r awen yn taro.

O ran casglu a diogelu gwybodaeth ym maes arferion tymhorol, efallai mai'r deunydd sydd wedi apelio fwyaf at y cyhoedd ers i mi gychwyn yn fy swydd yw'r casgliadau sain a ffilm sy'n gysylltiedig â defod y Fari Lwyd. Un o'r arferion mwyaf dramatig a thrawiadol yw'r Fari Lwyd, sef yr enw a roed ar y penglog ceffyl a fu gynt yn teithio o amgylch cartrefi gyda pharti o ddynion, yn bennaf yn siroedd Caerfyrddin, Morgannwg a Mynwy, adeg y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. O'r ddeunawfed ganrif tan ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd hi'n beth cyffredin iawn yn yr ardaloedd hynny i weld y penglog, gyda chynfas wen drosto, wedi ei addurno â rubannau lliwgar a photeli gwydr yn lle llygaid, yn cael ei gario ar bolyn o ddrws i ddrws gan un o'r grŵp. I ddechrau, canai'r dynion gyfres o benillion tymhorol traddodiadol, cyn mentro ar y 'pwnco', sef math ar gystadleuaeth ganu o boptu'r drws rhwng un aelod o'r grŵp ac un o'r trigolion, a byddai tynnu coes a chael sbort am ben ei gilydd yn cael lle amlwg. Ar ddiwedd yr ymryson byddai'r parti yn dymuno hwyl yr ŵyl i'r trigolion ac, fel arfer, yn cael eu gwahodd i mewn i'r tai am luniaeth. Diolch i ymdrechion grwpiau dawnys yn bennaf, mae'r traddodiad wedi ei ailgodi ac yn digwydd mewn rhai ardaloedd hyd heddiw, a pherffomir y ddefod hefyd yn Sain Ffagan ar adeg y dathliadau Nadolig blynyddol.



Mari Lwyd Llangynwyl, yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif

O ganlyniad i brosiectau maes eang yr Amgueddfa Werin a phroffil uchel eu gwaith casglu ar lwyfan cenedlaethol, byddai aelodau o'r cyhoedd, oedd yn aml â diddordeb ym maes canu gwerin, yn gyson yn cynnig eitemau cerddorol i'r Amgueddfa er mwyn cyfoethogi ei chasgliadau ymhellach. Yn 1969, fe drosglwyddwyd rhai esiamplau prin o recordiadau cerddorol cynnar yn rhodd i'r casgliad, sef cyfres o 31 silindr cŵyr yn dyddio o'r cyfnod 1910–1913. Arnynt yr oedd detholiad o ganeuon a recordiwyd ar beiriant ffonograff yn siroedd y Fflint, Dinbych a Chaerfyrddin gan y Fonesig Herbert Lewis, aelod blaenllaw o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Ruth Herbert Lewis oedd un o arloeswyr casglu caneuon gwerin yng Nghymru, a chyfrannodd yn sylweddol tuag at ddiogelu traddodiad cyfoethog cerddorol Cymru. Fe'i ganwyd yn Lerpwl ond symudodd i Gaerwys yn sir y Fflint yn 1897, yn dilyn ei phriodas â'r Aelod Seneddol Syr J. Herbert Lewis a chyn hir roedd yn trwytho ei hunan yn y diwylliant Cymreig. Gwefr o'r mwyaf yw clywed lleisiau o'r cyfnod hwn – unigolion a gafodd eu geni yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr un hynaf bron i 200 mlynedd yn ôl yn 1820.

Roedd sicrhau parhad cerddoriaeth a chaneuon traddodiadol yn agos iawn at galon staff yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd ac wrth i'r ugeinfed ganrif fynd rhagddi rhoddwyd pwyslais cynyddol ar gyhoeddi ffrwyth yr ymchwil llafar yn y maes a'i wneud yn hysbys yn gyffredinol. Sylweddolwyd bod angen cofnodi canlyniadau'r ymchwil ar bapur er mwyn ei adfer oherwydd, fel y dywed Roy Saer yn ei gyfrol *Canu at Iws*, breuder 'y cyfrwng llafar-gwlad' a noda bwysigrwydd 'cofnodi ei ddefnyddiau mewn rhyw gyfrwng diogelach'.⁸ Fe dderbyniodd Roy Saer gymorth aruthrol wrth gofnodi'r caneuon gan Dr Meredydd Evans a'i wraig Phyllis Kinney, sy'n eiconau rhyngwladol ym myd cerddoriaeth werin Cymru. Arweiniodd y cydweithio hwn at gyhoeddi'r cyfrolau *Caneuon Llafar Gwlad* 1 a 2 yn 1974 a 1994, oedd yn seiliedig ar waith maes yr Amgueddfa. Rhyddhawyd hefyd ddwy ddisg ar label cwmni recordio Sain, sef *Carolau Phygain* (1977) a *Caneuon Llofft Stabal* (1980). Roedd cyfraniad staff yr Archif Sain i raglenni radio a theledu yn lledaenu'r gair ymhellach ac o'r 1980au hwyr ymlaen fe ddechreuwyd cynnal sesiynau cerddorol byw yn Sain Ffagan, lle byddai grwpiau gwerin megis Ar Log, Calennig a Mabsant yn canu'r hen alawon yn ogystal â pherfformio cyfansoddiadau gwreiddiol. Treuliwyd amser sylweddol hefyd yn trefnu arddangosfeydd, rhai ohonynt yn rhai dros dro, ond eraill yn hirdymor. Ar ddechrau'r 1970au fe agorwyd yr Oriel Diwylliant Materol, ac yno, nes iddi gau yn 2008, bu arddangosfa eang o offerynnau cerdd y Cymry ac esiamplau sain ohonynt.

Wel beth am y sefyllfa bresennol? Mae'n wir dweud mai ychydig iawn o gyfleoedd sydd gennym i glywed caneuon gwerin yn eu ffurf a'u lleoliadau naturiol, megis ar yr aelwyd, mewn tafarn neu farchnad. Mae'n debygol y bydd mamau yn canu si-lwli i'w babanod neu grŵp o fois rygbi yn bloeddio 'Sosban Fach' ar ddiwedd y noson, ond yn gyffredinol, perfformiadau reit ffurfiol ar lwyfan pwrpasol a gawn ar y cyfan.

Erbyn heddiw, rôl bennaf yr Amgueddfa yw diogelu'r caneuon traddodiadol, eu meithrin a'u hybu pan mae'r cyfle'n codi, gan mwyaf drwy drefnu a chefnogi perfformiadau ar y safle, neu ar wyliau tymhorol. Er y gwasgedd cynyddol ar gyllideb digwyddiadau ers rhai blyneddodd bellach, mae rhaglen fywiog wedi parhau sy'n cynnwys yn aml offerynwyr a chantorion. Rydym yn sefydliad sy'n dathlu parhad y caneuon drwy eu cyflwyno i gynulleidfaoedd newydd ac rydym yn pwysleisio eu gallu i addasu a datblygu er mwyn eu cadw'n ffres a pherthnasol i wrandawyr cyfoes. Wedi'r cyfan, trafod themâu oesol y mae'r caneuon, megis



Gareth Bonello, Tŷlwrn Sain Ffagan, 2012

natur, serch a cholled, themâu sy'n berthnasol i bob unigolyn o ba bynnag gyfnod. Tra bod Iorwerth Peate yn awyddus i'r Amgueddfa adlewyrchu'r Gymru wledig, Gymraeg ei haith, erbyn heddiw y nod yw portreadu'r Gymru gyfoes, ôl-ddiwydiannol yn ogystal, Cymru sy'n llawn diwylliannau lleiafrifol, amrywiol, a hynny'n cael ei adlewyrchu yn aml mewn addasiadau newydd o gerddoriaeth gynhenid.

Pleser pur oedd bod yn bresennol yng ngŵyl gerddorol Seiniau Sain Ffagan ym mis Awst 2012, y gyntaf o'i bath. Cyfle i ddathlu yw gŵyl fel hon, drwy gydnabod gwerth ac arwyddocâd diwylliannol a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd ohono. Gwahoddwyd rhai o gerddorion gwerin ifanc mwyaf talentog Cymru i'r Amgueddfa i berfformio mewn detholiad o'r adeiladau hanesyddol, gyda'r nod o gyflwyno i gynulleidfaoedd eang alawon traddodiadol cynhenid wedi eu hasio'n gelfydd gyda chyfansoddiadau cyfoes. Crewyd naws arbennig o fewn yr adeiladau ac, heb os, y mae perfformiadau cerddorol o'r math hwn yn fodd i gyfoethogi holl brofiad ymwelwyr, sydd, gan mwyaf, yn profi cyfaredd y caneuon am y tro cyntaf. Wrth i'r cerddorion blethu deunydd traddodiadaol a chyfoes yn eu datganiadau, clywyd rhyw fath o linyr llafar yn rhedeg trwy'r cyfan, gyda chyfansoddiadau newydd yn aml wedi eu hysbrydoli gan fersiynau hanesyddol. Mae gosod stamp personol ar gân wedi digwydd erioed, a'r gyfrinach



Plu, Eglwys Teilo Sant, Sain Ffagan, 2012

y tu ôl i unrhyw draddodiad iach a llewyrchus yw ei allu i symud a newid gyda'r oes. Mae modd newid ac ailddehongli cân heb golli ei gonestrwydd. Er mwyn i ganeuon gwerin osgoi bod yn farwaidd ac amherthnasol i gynulleidfaoedd modern rhaid sicrhau eu bod yn ymateb i ddatblygiadau cymdeithasol cyfoes.

Un o gefnogwyr selog Seiniau Sain Ffagan yw'r gitarydd, canwr a'r cyfansoddwr Gareth Bonello, un sydd wedi ei ddylanwadu'n gryf gan Archif Sain Sain Ffagan. Ys dywed Gareth:

Dyna le nes i ddechrau, yn gwrando ar gerddorion o'r archif. Roedd yn rywle i fi glywed cerddoriaeth yn syth o'r ffynhonnell. O'n i eisiau clywed y cysylltiad personol – pobl yn sôn am ble o'n nhw wedi dysgu'r gân – y cysylltiad teuluol. Roedd yn gyfle i glywed y deunydd crai.⁹

Serch hynny, nid yw Gareth yn betrus o addasu a datblygu caneuon mewn ffordd bersonol; er enghraifft, mae ei ddatganiad ef o 'Y Bachgen Main' yn cadw geiriau Hector Williams ond yn cyflwyno fersiwn newydd o'r alaw a chyfeiliant offerynnol cyfoes. Anodd weithiau yw sylweddoli'r gwahaniaeth rhwng caneuon gwerin 'pur', os liciwch chi, sydd â'u gwreiddiau yn y traddodiad llafar, a

chyfansoddiadau cyfoes. Grŵp poblogaidd iawn yn Sain Ffagan yw'r 'Plu' cyfareddol, a chofiaf eu perfformiad o'u cyfansoddiad gwreiddiol 'Cwm Pennant' yn eglwys ganoloesol Sant Teilo, wedi ei ysbrydoli gan eu cartref yng ngogledd Cymru, fel un hudolus a llawn ymwybyddiaeth o gyfoeth diwylliant y gorffennol.

Un o'r plaserau eraill sy'n dod o fod yn guradur cerdd yn Sain Ffagan yw'r cyfleoedd niferus sy'n codi i gydweithio gyda chyirff cerddorol amrywiol, gyda'r bwriad o hyrwyddo cerddoriaeth werin yng Nghymru yn ei holl ogoniant. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Amgueddfa yn werthfawrogol tu hwnt o gymorth sefydliadau fel Trac a Clera, a bu'r cyfle yn 2013 i gydweithio gyda Cerdd Cymru a bod yn rhan o raglen gŵyl gerddorol ryngwladol Womex, pan gynhaliwyd hi yng Nghaerdydd, yn gyffrous dros ben. Mae adfywiad rhyfeddol canu gwerin yn ystod y ganrif sydd ohoni yn cael ei arddangos mewn llwyddiannau fel Womex, rhaglenni teledu fel 'Y Goeden Faled', prosiect '10 Mewn Bws' trac, a chefnogaeth gyson yr Eisteddfod Genedlaethol yn hybu a llwyfannu perfformiadau cerddorol. Cefais gyfle yn 2013, ar y cyd ag Adran Ethnoleg Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru, i drefnu cynhadledd undydd i drafod casgliadau llafar Sain Ffagan hanner can mlynedd yn union ers sefydlu'r Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd yn yr Amgueddfa. Gwahoddwyd Roy Saer a chyn-aelod arall o'r staff, yr arbenigwr ar lèn gwerin, Dr Robin Gwyndaf, i draddodi darlithiau a chafodd y gynulleidfa wledd wrth wrando ar gyflwyniadau treiddgar, ysgolheigaidd, ond oedd ar yr un pryd yn llawn hwyl a hiwmor. Rhannodd y ddau eu profiadau am gasglu deunydd llafar, tra'u bod yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd cerddoriaeth a llên gwerin, a'r modd y ceisiwyd cenhadu'r neges dros Gymru am y cyfoeth o ddeunydd a gronwyd ganddynt. Rhoddodd Dr Robin Gwyndaf sylw blaenllaw i'r cynheiliaid traddodiad hynny oedd yn ganolbwynt i'w waith maes – y siaradwyr a roddodd iddo ddeunydd byw, cyfoethog oedd, yn aml iawn, wedi ei drosglwyddo ar lafar o un genhedlaeth i'r nesaf. 'Mae gan bawb rywbeth gwerth ei gofnodi' oedd ei neges a thrafodwyd ei brofiadau niferus o recordio rhyw 400 o unigolion, oll â'u hanesion gwerthfawr, gwreiddiol, a sawl canwr gwerin bendigedig yn eu mysg. Pwysleisodd Dr Gwyndaf fod llên gwerin yn rhan o fywyd beunyddiol pobl, ac yn ganolog i gymdeithas yn hytrach na bod yn elfen ymylol. Y mae'r cynheiliaid traddodiad nid yn unig yn cynnal tystiolaeth, ond hefyd yn ei addasu ac yn creu elfennau o'r newydd. Mae elfen annisgwyl llên gwerin yn cadw ac yn cynnal ein diddordeb, pa bynnag gymdeithas mewn pa bynnag gyfnod: mae

llên gwerin yn bresennol ac yn perthyn i bawb. Fel ym maes canu gwerin, y ffordd i barhau'r traddodiad yw trwy ei ddefnyddio a'i gadw'n fyw. 'Beth yw'r pwrpas', gofynnodd Dr Gwyndaf, 'mewn rhoi trysor mewn hen gwpwrdd?'¹⁰ Mae angen ei arddangos a'i ddathlu.

Er y newidiadau cymdeithasol sylweddol a fu dros y canrifoedd, goroesi y mae'r hen ganeuon o hyd ac maent yn parhau i gyffwrdd â phobl hefyd, a chyda thwf technoleg megis y rhyngwrdd, mae gwrandawyr arnynt yn eich cartref yn mynd yn gynyddol haws. Caiff perfformwyr a gwrandawyr fel ei gilydd eu swyno gan y caneuon traddodiadol, sy'n aml yn esblygu gyda thraul amser – yr un gwreiddiau, fel petai, ond yn canghennu i gyfeiriadau gwahanol. Heb os, mae'r traddodiad gwerin yn parhau. Dyma, wedi'r cyfan, yw diwylliant iachus a byw – deunydd cyfoes o safon lle mae unigolion naill ai'n mynegi'r hen ganeuon mewn ffordd ffres, neu'n cyfansoddi caneuon gwreiddiol newydd. Mae ffefrynnau megis 'Hen Feic Peniffardding fy Nhaid' gan Meredydd Evans eisoes wedi treiddio i ddiwylliant canu gwerin y Cymry Cymraeg. Yn yr un modd, mae'r gân genedlaetholgar 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan a 'Chân Walter' gan Meic Stephens yn ddwy esiampl gofiadwy arall o gyfansoddiadau'r ugeinfed ganrif sy'n parhau i gael eu chwarae'n gyson ar y radio neu ar lwyfan. Er bod canu o lwyfan pwrpasol neu recordio cân mewn stiwdio yn ffurfiol perfformiad, mae'r ffurfiau hyn o gyflwyno darn yn gallu cynyddu ei statws ac ehangu ei apêl.

Erbyn heddiw, hyrwyddo'r casgliadau caneuon gwerin yw un o swyddogaethau Amgueddfa Werin Cymru – i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac i gynnal y traddodiad ymhellach. Wedi blynyddoedd o recordio lleisiau'r Cymry ar dâp mae'r Amgueddfa wedi sicrhau bod archif o berlau llafar ar gof a chadw sydd yn addysgu a difyrru. Dywedodd y Fonesig Parry-Williams ar ddechrau'r 1960au nad 'pethau statig celfyddydol yn cael eu cadw'n barchus rhwng cloriau llyfrau'¹¹ yw'r caneuon cynhenid. Oes, mae angen i'r Amgueddfa eu gwarchod, ond yn fwy na hynny, mae'n rhaid croesawu a chydabod esblygiad a newid er mwyn sicrhau hir oes i'r caneuon a pherthnasedd parhaus i Gymry'r dyfodol.

Summary

The collection of materials relating to traditional music has been a part of the remit of the National Museum of Wales from its foundation in 1907, particularly following the opening of the Welsh Folk Museum in 1948. This article, which is based on the author's Amy Parry-Williams memorial lecture at the National Eisteddfod in 2014,

outlines the wealth and variety of the Museum's collections in the field, ranging from the musical instruments which were acquired early on, to the sound archive which from 1958 established a pattern of field recordings aimed at preserving elements of dialect and traditional customs which were fast disappearing. Many traditional songs, around 500 in all, were recorded by Roy Saer from 1963 onwards in all parts of Wales. He established a rapport with singers and encouraged them to share songs which he recorded in the comfort of their own homes. These songs were often accompanied by recollections from the singer of customs relating for instance to New Year, the collection of calennig, and the greeting ceremonies associated with the Mari Lwyd. Traditional plygain carols were also recorded and some of the recordings published, along with two collections entitled *Caneuon Llafar Gwlad*. This work was a continuation of the pioneering collecting done by the Society in the early twentieth century. More recently the Museum has concentrated on the presentation and interpretation of folk music at live events.

NODIADAU

¹ Addasiad a geir yma o Ddarlith Goffa Amy Parry-Williams 2014: roedd y ddarlith wreiddiol yn cynnwys esiamplau cerddorol o Archif Sain Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan.

² Amy Parry-Williams, 'Geiriau ein caneuon gwerin', *Canu Gwerin*, 1 (1978), 5.

³ Iorwerth Peate, *Amgueddfeydd Gwerin / Folk Museums* (Caerdydd: Prifysgol Cymru, 1948), t. 58.

⁴ Iorwerth Peate, *Castell Sain Ffagan a'r enghreifftiau eraill: Llawlyfr Darluniadol* (Caerdydd: Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 1949), t. 7.

⁵ Iorwerth Peate, 'Welsh Musical Instruments', *Man*, vol. 47 (February 1947), 25.

⁶ Sgwrs a recordiwyd yn 2008 rhwng yr awdur a Roy Saer, Tâp archif Amgueddfa Werin Cymru, rhif 11057.

⁷ Sgwrs a recordiwyd yn 2008 rhwng yr awdur a Roy Saer, Tâp archif Amgueddfa Werin Cymru, rhif 11057.

⁸ Roy Saer, '*Canu at Iws' ac Ysgrifau Eraill* (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 2013), t. 50.

⁹ Sgwrs anffurfiol rhwng yr awdur a Gareth Bonello, Gorffennaf 2014.

¹⁰ Dyfyniad o gyflwyniad gan Dr Robin Gwyndaf, 'Llên Gwerin Cymru: Dathlu a Rhannu'r Trysor, 1964–2013', i Adran Ethnoleg Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru, Tachwedd 2013.

¹¹ Amy Parry-Williams, 'Geiriau ein caneuon gwerin', *Canu Gwerin*, 1 (1978), 5.

IOLO MORGANWG – CLEFS AND QUERIES

Chris Grooms

At one of our yearly rendezvous in Cwmystwyth and at the National Library of Wales some years back, Meredydd Evans asked me why Iolo Morganwg (Edward Williams, 1747–1826) shaped his ‘G’ clefs so contrary to what we now accept as the standard shape. As with all queries arising from Merêd (and Phyllis), I knew the answer would initiate a long but profound musical adventure. Certainly, the initial path would follow in the wake of the dedicated scholarship of G. J. Williams,¹ Leila Salisbury’s newly-minted anthology of Iolo’s melodies,² and the Iolo project.³

In his initial, groundbreaking study of the life of Iolo Morganwg, G. J. Williams noted a specific autobiographical confession regarding Iolo’s sensibility to musical composition, as dictated by his experience in London Welsh social circles of the 1770s:

I had before acquire[d] a slight smattering in the principles of music. at London meeting with Books by Percell [*sic*], Simpson, Rameaur [*sic*] &c. on the art of composing music, I for some time studied it and acquire[d] a slight knowledge of it, but finding it necessary to be possessed of an organ or harpsichord [an]d of skill to play on it before I could succeed as a composer of music in parts I was obliged to drop this study. I was not rich enough to buy the instrument I wanted.⁴

Such rare autobiographical details of how Iolo defined his musicianship reveal educational and economic anxieties common to many arriving in the Metropolis at the time. Arriving in London from a Wales just beyond the musical horizon of the Restoration period,⁵ he sensed many gaps in his musical identity as an untrained (although not untutored) musical novice from Glamorganshire at the beginning of the new Industrial Age of late eighteenth-century Britain.⁶ Yet this



Keith Morris

other, older Welsh world and its musical culture finds Edward Williams a fully developed musician, just perhaps not so by the material and economic constraints of a Hanoverian London society, as he readily admits. This admission of a dichotomous identity as a musician / composer with reference to skill reflects the station of someone whose basic music skills appear out of sync and out of touch not only with the contemporary, contrapuntal harmonic world of British popular music, but also without the material resources to proceed or succeed as a musician in his London circles.⁷ By the mid-eighteenth century, professional music was an even richer man's game, with few exceptions. The economic gulf between amateur and professional musician had deepened to an abyss (that abyss is even deeper today).

Even if we reflect on his intent to 'drop this study' of music, assessing Iolo's youthful training, examining the material itself, the paper, ink, and conventions of his script, will reveal something of how he still patterned himself as a musician beyond the reach of his London peers. Under what material and pedagogical restraints and conditions did he record his music on paper? How did these restraints affect his ability to develop as a musician? In short, how was he schooled in the musical arts, both manually and aesthetically? It is a complex but contradictory picture as of now, but some graphic habits may allow at least a starting point from which to develop more productive questions about his musical achievements and perhaps expose more fully the cultural context from which he drew his inspiration to record what he heard both in London and in his beloved Glamorganshire. Small orthographic habits, specifically his clef notations, may uncover some but not all of his musical sensibilities and knowledge, that is, the evidence of a mixed modal and harmonic (major / minor) tonality.⁸

Although the contemporary form of 'G' clef appears sporadically in Iolo's hand, it appears more consistently in other hands and texts from the mid-eighteenth century to the present, for example, in the hand of Welsh harpist Thomas D. Llewelyn (Llewelyn Alaw, 1828–1879) and collector John Jenkins (Ifor Ceri, 1770–1829), working in the mid-nineteenth century from models as printed by Walsh and others that flooded British music stalls and booksellers at the time.⁹



John Walsh (c. 1756)

Llewelyn Alaw (mid-19th c.)

Ifor Ceri (mid-19th c.)

In contrast, the basic ‘G’ clef in Iolo’s hand mirrors the hand of most professional and amateur British musicians from roughly 1550 to 1740, although this specific form of ‘G’ clef survived intermittently as a scribal habit well into the nineteenth century in some music circles, both sacred and secular.¹⁰ The basic simple pattern of Iolo’s ‘G’ clef clearly simulates the lower case letter ‘g’:



This older form of ‘G’ clef typifies a form popular some fifty to a hundred years previous to Iolo’s time, a relic of an aesthetic that preceded the more popular and now ubiquitous ‘G’ clef.

I suggest two scenarios that may explain Iolo’s scribal training, one derivative from print and the other derivative from far older hands.

Obvious print sources for Iolo’s ‘G’ clef are from the new ‘tied note’ typographic traditions of the late seventeenth century,¹¹ as follows:

- 1) the London-based editions of the music of Henry Purcell, John Blow, and other Restoration composers; typographer: John Heptinstall; example, *Vinculum societatis* (London, 1687):



- 2) the Oxford-based presses, imitating Aldrich, et al., and the Oxford circle of scribes of the late 1600s; typographer (for John Fell): Peter de Walpergen;¹² example, *Music oxoniensis* (Oxford, 1698):



- 3) the London-based music printing houses¹³ of John and Henry Playford's later editions of both *The Dancing Master* and *An Introduction to the Skill of Musick in Three Books* (1690–1731); typographer, William Pearson:



These three men, Heptinstall, Walpergen, and Pearson, designed musical fonts in a milieu that stretched from approximately 1690–1731, after which these clef styles all but disappear from print,¹⁴ eclipsed by the fonts of cheaper copperplate tune collections of Walsh and others.

William Pearson's font is perhaps the most obvious candidate as a model for Iolo to imitate, as Iolo's autobiographical narrative connects his understanding of the principles of music with Henry Purcell (1659–1695), whose treatise on the 'Art of Descant' replaced Thomas Campion's initial contribution in the later editions (1694+) of John and Henry Playford's *An Introduction to the Skill of Musick, in Three Books*. William Pearson's typeface appears in all editions from 1703 to the last impression in 1731.¹⁵


For examples of such influences, the clef styles of the late seventeenth-century fiddler Henry Atkinson and the later eighteenth-century fiddler James Hook, a friend to Thomas Hardy's grandfather,¹⁶ display some approximate imitation of these printed texts, such as Purcell's *Orpheus Britannicus*, or other similar books with the fonts of John Heptinstall or William Pearson:



Henry Atkinson (c. 1694) James Hook (mid-18th c.)

Most post-Restoration typographers designed their music fonts to reflect the scribal habits of musicians, composers, copyists, and scribes within the aegis of London and Oxbridge. They shared a common clef form, reflected across several generations. Henry Purcell (1659–1695), Henry Aldrich (1647–1710), John Walter (1660–1708), and the Oxbridge community of copyists and scribes based their training in composing and copying music on the hands of a previous generation of composers that bridged the Interregnum (1649–1660), such as the Welsh composer Elway Bevin (Elway ab Evan, *fl.* 1605–1631), William Byrd (1540–1623), and others. The elegant curves of Peter de Walpergen’s font (above), like that of the Heptinstall and Pearson fonts, reflect an improved clef design with broader, more symmetrical curved end-strokes, derived in part from working directly with the draft copies circulating between later Restoration composers (Purcell, Walters, et al.).

In array, the common signature shapes become apparent across several generations:



Elway Bevin¹⁷ William Byrd¹⁸ Henry Purcell¹⁹ John Walter²⁰ Henry Aldrich²¹ Iolo

In imitation of seventeenth-century hands, Iolo’s fairly consistent long and straight end-strokes of the ‘G’ clef stand out in contrast to the curved end-shapes of the printed clefs, suggesting that Iolo may have derived his training from a post-Restoration tradition that survived in Wales (or London?) as a late undercurrent among British musicians rather than in imitation of this or that printed text (and its subsequent theoretical content?) as imposed by the new ‘tied note’ fonts (i.e. Walpergen, Heptinstall, and Pearson).

More interestingly, these older signatures frame the work of older composers both Welsh and English that derive their skills from a different perspective on the creative processes associated with composing and performing music. They reflect as well as a different sense of theory (more a modal rather than a harmonic tonality), and this informs their melodic compositions. This older clef design appears in the works of composers who represent the survival of a different aesthetic, sentiment, and sensibility perhaps contrary to the definition of ‘composer’ among Iolo’s eighteenth-century peers in London. It reflects a more abiding commitment to imitation (*imitatio*, copy and follow the best closely; W. *dylyniad*, citing John Davies, *Dictionarium Duplex*, 1632) and competitive composition (*emulatio*, an attempt to improve; to compete with; W. *cystadlu*, *cydymgeisio*, John Davies, *Dictionarium Duplex*, L. *competo*), two critical characteristics of Iolo’s literary and musical imagination and output. The treatment of folk melodies by earlier composers had a richer, more direct context:

...the tune was multiform, circulated without the constraints of print. One learnt it from ballad-mongers, tavern fiddlers, whistling apprentices, copied it from a friend’s book of lute lessons; that is, picked it up in much the way those with an appreciation of the common muse acquired the musical ephemera of the day, casually.²²

As an open observation (speaking as a guitarist more schooled by Thomas Mace, John Dowland, and Blind Lemon Jefferson), I believe, as Ceri Jones has suggested in the two previous issues of *Canu Gwerin*, that our ears, voices, and hands can and should more fully explore this older modal world²³ represented by Iolo and his predecessors, a world perhaps with a medieval resonance, but certainly post-medieval and pre-Hanoverian in its more ancient sensibility to the fabrication, collection, and composition of music, a decidedly rural and less professional path of music that once strutted along parallel to print in a widespread pattern unnoticed by the contemporary theorists and their publicists²⁴ in their urban settings, a world more fully cognizant of the complex interplay of vocal and instrumental sounds rather than a reductionist major/minor harmonic imprisoned by paper as a way to unlock the powers and mysteries of music, The primary path to the people’s music, in this case the ‘Cymry’, as Iolo’s extant record attests, not only imitated but also tested, rearranged, and improvised upon the melodies.²⁵

As Stephen Rees pointed out in his 2014 address to CAGC (Fron Oleu, Dolgellau), Wales may be already witnessing a ‘funneling out’ or revival in folk music performance that promotes some different sensibilities with reference to creative improvisation as an expression of authority and authenticity. We await the full presentation and context of his study. I would also argue that just setting the clef mark back a century could disclose new ways to consider and arrange the music in Iolo’s complex collection,²⁶ and thus, following his example, pave the way to recreating and sustaining a living musical tradition.

NOTES

¹ Specifically his initial volume *Iolo Morganwg, Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd, 1956), but also the broader overview *Traddodiad Llenyddol Morganwg* (Caerdydd, 1948).

² *Alawon Gwerin Iolo Morganwg* (Aberystwyth, 2012).

³ Much of this basic work could not have proceeded with any productive direction without the support and help of the Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies at the National Library of Wales, Aberystwyth. Since my first sabbatical in 2008 at Aberystwyth, Geraint Jenkins and his successor Dafydd Johnston, and staff, especially Mary-Anne Constantine, provided logistical support and help for most of this initial research. The ‘Iolo Morganwg and the Romantic Tradition in Wales’ project publications have provided a new foundation outline that replaces my initial and laborious foray into the Llanover manuscripts in the late ‘80s. Their publications allowed much more effective use of my time last fall (2014) in the various research libraries in London, Oxford, and Cambridge.

⁴ G. J. Williams, *Iolo Morganwg, Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd, 1956), pp. 215–16.

⁵ For a full discussion, see John Harley, *Music in Purcell’s London: The social background* (London, 1968).

⁶ Iolo’s mother had, he admits, introduced him to poetry and music through the *Vocal Miscellany*, a text with selections and tune titles more aligned with the end of the seventeenth century, see G. J. Williams, *Iolo Morganwg, Y Gyfrol Gyntaf*, p. 216.

⁷ See Jessie Ann Owens, *Composers at Work, The Craft of Musical Composition, 1450–1600*, (London 1997), Chapter 4, *passim*. Vincenzo Galileo, the father of the famous astronomer, mirrors Iolo’s description some two hundred years before in his description of the two types of musicians in that world (professional and amateur). Iolo’s skill with the voice and German flute were no longer enough to mark himself as a cultured musician.

⁸ See Daniel Huws, ‘Iolo Morganwg and Traditional Music’, in *A Rattleskull Genius: The Many Faces of Iolo Morganwg*, ed. Geraint H. Jenkins (Cardiff, 2005), pp. 333–58, as well as Ceri Jones’s groundbreaking articles in the recent issues of *Canu Gwerin*, 2013, 2014, for that developing discussion.

⁹ For an overview of such publications see David Hunter, ‘Music’, Chapter 41, in *The Cambridge History of the Book in Britain, Vol. V, 1695–1830* (Cambridge, 2009), pp. 750–61; for the Welsh context, see Rhidian Griffiths, ‘Music publishing’, in *A Nation and Its Books* (Aberystwyth, 1998), pp. 237–44.

¹⁰ Although a catalogue of such clefs as appear in British manuscripts does not yet exist, seminal examples include James Cook's fiddle manuscript (mid- to late eighteenth century), from a facsimile collection of Thomas Hardy's grandfather's manuscript, available for review at the Ralph Vaughan Williams Library, Cecil Sharp House (EFDSS), Camden, London, as well as various Welsh hymn-books available at the National Library of Wales, for example, Foulk Roberts's Welsh harp and music theory manuscripts and treatises, NLW Add. MS 794 A, as well as various manuscripts in the Bangor University Library (thanks to Elsa Davies for this latter reference). For an initial history of the treble clef, see Frank Kidson's two part article 'The Evolution of the Clef Signatures', *Musical Times*, 49 (July 1908), 443–4; 50 (March 1909), 159–60. For earlier sixteenth-century English and Flemish examples, see also references to Lampadius's music textbook *Compendium musices* (c. 1554) in Jessie Ann Owens, *Composers at Work, The Craft of Musical Composition, 1450–1600* (London, 1997), p. 41.

¹¹ For the full overview, see Mary Chan, 'Music books', Chapter 5, in *The Cambridge History of the Book in Britain, Vol. IV, 1557–1695*, eds. John Barnard and D. F. McKenzie (Cambridge, 2002), pp. 127–37.

¹² A special thanks to Dr Martin Maw, Archivist, Oxford University Press, for allowing me to examine and sort out the original Walpergen music fonts, in September 2014.

¹³ For a history of these companies, see the recent study by James Raven, *Bookscape: Geographies of Printing and Publishing in London before 1800* (London, 2014).

¹⁴ For the full discussion of these typographers, see D. Krummel, *English Music Printing, 1553–1700*, (London, 1975), as well as *The History of the Oxford University Press. Volume I: Beginnings to 1780* (Oxford, 2013), ed. Ian Gold, pp. 454–8, and entries for Walpergen, *passim*; also Talbot Baines Reed, *A History of the Old English Letter Foundries* (London, 1872, rev. ed. 1952, A. F. Johnson), 'Music', pp. 71–3.

¹⁵ For the full chronology of these typographers, see Cyril Lawrence Day and Eleanore Boswell Murrie, *English Song-Books, 1651–1702* (London and Oxford, 1940, for 1937).

¹⁶ See the FARNE (Folk Archive Resource North East) for the full facsimile digital archive of this fiddler's manuscript; a special thanks to Laura Smyth, Director, the Vaughan Williams Memorial Library, Camden, London, for her help in exploring these references and resources.

¹⁷ British Library Ms. R. M., C14, fol. 2^v.

¹⁸ *Parthenia or The Maydenhead of the first musicke that ever was printed for the Virginnalls* (1611).

¹⁹ Lg Safe 3, Guildhall Library, London; special thanks to the Mercers' Company, London, for permission to print this facsimile. For an overview of Purcell's handwriting style, see Franklin B. Zimmerman, 'Purcell's Handwriting', in *Henry Purcell, 1659–1695, Essays on his Music* (London, 1959), ed. Imogen Holst, pp. 103–5; see also Robert Thompson, 'Sources and Transmission', in *The Ashgate Research Companion to Henry Purcell*, ed. Rebecca Herissone (Farnham, 2012), as well as the introduction discussions in Robert Shay and Robert Thompson, *The Purcell Manuscripts: The Principal Musical Sources* (Cambridge, 2006).

²⁰ (1660–1708), organist, music copyist, composer, a chorister and later copyist for Purcell's friend and contemporary John Blow (1649–1708).

²¹ (1648–1710), Dean of Christ Church, Oxford, and Vice-Chancellor of Oxford University. His music manuscripts survive at Christ Church, Oxford.

²² John M. Ward, qtd in Herissonne, 363, in 'Scribal memory stores and the "gist"'; the reference comes from his article, 'And Who But Ladie Greensleeues', *The Well Enchanting Skill: Music, Poetry, and Drama in the Culture of the Renaissance: Essays in Honour of F. W. Sternfeld* (Oxford, 1990), eds. John Caldwell, Edward Olleson and Susan Wollenberg, pp. 181–211, ref., 182.

²³ For an overview of the European context, see Joel Lester, *Between Modes and Keys, German Theory 1592–1802* (Salford 1990), particularly chapter 8, 'The Persistence of Modal Theory', pp. 133–50.

²⁴ This is by no means a new area of exploration as evidenced by such earlier studies as Lemuel J. Hopkin James 'Hopcyn' and T. C. Evans 'Cadrawd', *Hen Gwndidau, Carolau a Chywyddau: being sermons in the Gwentian dialect by forty-two bards of Tir Iarll of the Tudor period* (Bangor, 1910).

²⁵ The most recent scholarship in this field is by Rebecca Herissonne, *Music Theory in Seventeenth-Century England*, (Oxford, 2001), particularly the chapter on 'Tonality'; as well as her newest and most important work as relates to the contextual issues in this paper, *Musical Creativity in Restoration England* (Cambridge, 2013), especially 'Part I: Creative contexts and principles'; see also Daniel Heller-Roazen, *The Fifth Hammer: Pythagoras and the Disharmony of the World* (London, 2011) and Frances Dyson, *The Tone of Our Times: Sound, Sense, Economy, and Ecology* (Cambridge, Mass., 2014), who also offer larger perspectives on the shift away from mathematics towards sound texture and frequency (natural and digital) as a source for defining how we learn about, listen to, and consider the presence of music around us.

²⁶ See, for example, Theodor W. Adorno, *Towards a Theory of Musical Representation* (Cambridge, 2006), a re-evaluation of the role and responsibilities of the pre-classical musicians.

TEULU ALAWON ‘MÊL WEFUS’ A’R CAROL PLYGAIN ‘Y Carol Mawr i’w ganu ar *Hope to Have*’

Nigel Ruddock



Yn CCAGC IIIi (1930) yn ail ran ei ymdriniaeth ar ‘Carol and Ballad-tunes’ noda John Lloyd Williams bedair alaw (eitemau 25–28) dan y pennawd ‘Mêl Wefus’. Eitem 25 yw’r fersiwn 4/4 a grëwyd ganddo yn seiliedig ar y dôn 2/4 a nodwyd fwy nag unwaith gan Ifor Ceri,¹ ac sy’n dwyn y teitl ‘Mêl Wefus neu *Hope to Have* Deheubarth’ yn ‘Pêr Seiniau Cymru’. Fel y noda J. Lloyd Williams dyma hefyd gynsail y ‘Mel Wefus’ a gyhoeddodd Bardd Alaw yn *The Welsh Harper II* yn 1848. Eitem 26 yw ‘Holl Feibion A Merched’ o *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg*.² Dywed J. Lloyd Williams mai Eitem 27 yw fersiwn a ganwyd iddo gan chwarelwr o Fethesda ym Mhorth Rhondda, ond sonia hefyd i Eos Llechid nodi’r alaw yn *Y Cerddor*³ a dyma’r hyn a gyflwynir, heblaw am rai o’r llithriadau a welir rhwng nifer o’r nodau. Eitem 28 yw’r un a welir ar dudalen 149 *Alawon Fy Ngwlad*⁴ dan y pennawd ‘Mêl Wefus (3)’. Fel y noda J. Lloyd Williams mae ‘Mêl Wefus (1)’ yn yr un gyfrol yn cyfateb yn fras i fersiwn Eos Llechid, er bod newidiadau i’r donyddiaeth, ac mae’n debyg mai *Y Cerddor* (1889) yn y pen draw oedd ffynhonnell y deunydd. Byrdwn sylw cwta J. Lloyd Williams ar ‘Mêl Wefus (2)’ yw ei bod mor wahanol i’r lleill nes ei bod hi’n debyg iddi gael ei henwi ar gam.

Mewn gwirionedd, mae ‘Mêl Wefus (2)’ yn perthyn i gangen arall o’r teulu. Ceir yr enghraifft gynharaf, dyddiedig 1752, dan yr enw ‘Hope to Have’ yng nghasgliad ffidl John Thomas.⁵ Yn nodiadau’r gyfrol brintiedig o’r llawysgrif ceir yr wybodaeth bellach y defnyddid ‘Gobaith i Dderbyn’ yn bennawd arall ar yr alaw. Dywedir bod yr emyn-dôn ‘Llantrisant’ yn cynrychioli fersiwn dalfyredig o’r alaw a sonnir am y tebygolrwydd fod Richard Morris⁶ wedi crybwyll yr alaw dan yr enw ‘Hoby have’ mewn rhestr a luniwyd ganddo yn 1717. Nododd Morris Edward⁷ ddau fersiwn ar yr alaw yn ei lawysgrif, dyddiedig 1778. Teitl y gyntaf yw ‘hope to have or Mêl Wefus’, sy’n cynnwys wyth bar yn y rhan gyntaf a deuddeg bar yn yr ail. Mae’r llall yn dwyn y teitl ‘Mêl Wefus’ yn unig, ac

ymddengys mai deg bar sydd i'r ail ran. Y ffurf hwyaf sy'n debygol o fod yn gynsail i'r alaw 'Mel-wefus, - or - Hope to have' a gynhwyswyd yn *Cambrian Harmony*.⁸

Ymddengys 'Mêl-wefus' ddwywaith mewn rhestr o alawon Cymreig a gyhoeddwyd yn *Y Cerddor* (1 Ebrill 1893). Y cyfeiriad cyntaf yw 'B.A. [Bardd Alaw] Yn y cywair lleiaf. Ceir dull arall o'r alaw (ac yn y cywair mwyaf) yn y Deheudir.' Y llall yw 'Eto (Nid yr un) – C.C. [*Y Cerddor Cymreig*].' Er chwilio'n ddyfal yn *Y Cerddor Cymreig*, methais â dod o hyd i'r cyfeiriad hwnnw, ond mae'n bosibl iawn mai camgymeriad yw hynny am *Cambrian Harmony* Richard Roberts. Diddorol yw gweld cadarnhad i awgrym Ifor Ceri fod dull gwahanol arni yn y De, ond ni ellir disgrifio dim un o'r enghreifftiau a nodwyd fel fersiwn yn y cywair mwyaf. Mae'r enghreifftiau yn amrywio o ran tonyddiaeth. Ceir fersiwn yn y cywair lleiaf gan Ifor Ceri, fersiwn Doraidd gan Eos Llechid, a fersiynau cymysg eu tonyddiaeth gan eraill, megis Maria Jane Williams. Er bod y donyddiaeth yn amrywio, amseriad 2/4 neu 4/4 sydd i bob un.

Yn ei nodiadau ar 'Holl Feibion A Merched' yn *Ancient National Airs*, mae Daniel Huws yn crybwyll i Ifor Ceri nodi fersiwn arall ar yr alaw dan y teitl 'Cân Y Gofid' ac i Arglwyddes Llanofer nodi fersiwn hefyd dan y teitl 'Eglwysnewydd'. Crybwyllir 'Mesur yr Eglwys Newydd neu fesur yr Eos' gan Iolo Morganwg mewn rhestr o fesurau cerdd dafod cyffredin⁹ lle sonnir am 'Cân yr Eos ynghylch amser Cromwell'.

Cyfeiria J. Lloyd Williams at ei Eitem 26 fel ffurf ar 'Ffarwél i Dref Manceinion' gan nodi cysylltiad ag 'Yn y Gwŷdd' ac aelodau eraill o deulu alawon Captain Kidd, ond fel y dangoswyd uchod, ceir digon o enghreifftiau wedi'u nodi dan enw 'Mêl Wefus' heb sôn am gysylltiadau pellach. Fe wna sylw arall mewn cysylltiad ag alaw Eos Llechid, sef gresynu na roddwyd unrhyw eiriau gyda'r alaw. Gellir tybied efallai fod carolau Nadolig mewn golwg gan Eos Llechid wrth iddo ddewis ei deitl 'Hen Garol-Donau', a gellir cyd-fynd â safbwynt J. Lloyd Williams wrth ystyried y gellir cael mwy o ddefnydd cyfoes yng nghyswllt carol Nadolig nag yn achos cerddi megis 'Bustl y Cybyddion' a nodwyd gan Ifor Ceri o'r *Blodeu-gerdd*.¹⁰

Mêl Wefus

Tenor

Alaw

Bas

Fe gan - odd Sec ca - ri - as gar - ol, 'Rôl
ddaeth yr ang - el odd - iwrth Fair ol - au, gu

Ten.

Alaw

Bas

ge - ni Io - an Fed - ydd - iwr duw - iol, pan
ddon - iol iaith fe gan - odd hith - au; Yr

Ten.

Alaw

Bas

Ys - bryd Glân oedd yn ei llen - wi, ach - os gwiw deg i'w chys-god-i,(am)

7

Ten.

Alaw

Bas

fod yr arch - o - ffeir-iad ffydd-lon, Bla - gur - yn sir - iol, rhos-yn Sar-on, yn

9

Ten.

Alaw

Bas

Oen iach hy-lwydd yn ei châr - lon (ac) yng nghyf-lawn-der yr am-ser-oedd

12

Ten.

Alaw

Bas

(y).For wyn fen - dig-ed - ig yd-oedd, Aeth i Feth-lem, Din-as Daf-ydd I'w

14

Ten.

Alaw

Bas

thre-thu 'nôl iawn ddon-iol ddeun-ydd Y bur wyr - yf - es bu mor uf - udd.

Ni chynhwyswyd ‘Mêl Wefus’ gan Phyllis Kinney yn ei herthygl ‘The Tunes of the Welsh Christmas Carols’.¹¹ Awgryma hynny na wnaethpwyd defnydd helaeth o’r alaw ar gyfer carolau Nadolig. Serch hynny, ceir cadarnhad i awgrym Eos Llechid fod iddi eiriau carol mewn llyfryn bychan yn Llyfrgell Salisbury, Prifysgol Caerdydd, sy’n dwyn y teitl *Y Carol Mawr: I’w ganu ar Hope to Have*.¹² Gan nad yw’n debygol fod llawer o gopïau o’r llyfryn bychan wyth tudalen hwn ar gael, a chan ei bod hi’n debygol fod carolau Nadolig ar yr alaw ‘Mêl Wefus’ yn weddol brin, buddiol fyddai dyfynnu’r penillion yn llawn. Go brin y disgwylir clywed canu’r 16 pennill ar eu hyd heddiw, ond gellir dethol penillion addas i’w canu naill ai’n garol Nadolig neu’n garol Pasg fel bo angen.

1. Ymlawenhawn yn Ngrist ein Brenin
Yn dragwyddol efe yw’r gwreiddin;
Cyfoded pawb sydd yn ei garu,
Am fawl yr wy’n ei orfoleddu;
Galw, os wyt yn ddyn ysbrydol,
Ar fin y dydd ar Frenin Dwyfol;
Trwy lawenydd, tro dy Luniwr
Yn ben gorfoledd, fel gwir filwr.
Y Brenin anwyl yw dy Brynwr,
Doed pawb sy’n perchen calon hylwydd
I lawenhau yn Ngrist yr Arglwydd:
Ac os y’ch chwi yn bur ffyddloniaid,
Rhowch fawl ar dwyn fel ŵyn diniwaid
Mwyn gyda’r dydd i Geidwad enaid.

2. Holl blant y byd, sy’n cym’ryd canu
Fel coeg oferedd i’w difyru,
Gan feddwl hyn, na ofyn Seilo
I’r [r]hai i gyd ond eiste’ i wrando,
Canai’r holl Broffwydi hyfryd,
A phob duwiol yn y cynfyd,
Mwyngall ydoedd y gyn’lleidfa,
Mewn diniweidrwydd a mwyneidd-dra
A’u mawl mor rydd i Fab Mareia.
Enoc oedd y cynta’n seinio
Mawl diogel i Dduw Iago,

Ac Abr'am bur, â chalon hyfryd,
A ganai'n dduwiol am'r addewid,
Yn ufydd lawen i'w Anwylyd.

3. Fe ganodd Moses, a'i frawd Aaron,
Yn llawen iawn, a'r holl dduwiolion,
A Miriam deg ar ol mordwyo
A dawnus iawn bu yn cydseinio;
Canodd Barac a Debora,
Gân yn siwr i'r gwir Feseia,
Mewn arwydd hynod yr oedd Hannah
Yn eilio cân ac Elicana,
Mewn agwedd lawen ac Eliah,
Canodd Dafydd yn dra dawnus,
Job a Solomon mor hwylus;
I'r Iesu canodd Hesecia,
Wr gwiw a llariaidd mewn call eiria',
A Duw mor dirion a'i gwrandawai.

4. Mor ddawnus hefyd 'roedd Esia
Yn gorfoleddu yn yr ail Adda,
A Jeremia a ganai'n ufydd,
Ac Eliseus ac Asaph hylwydd,
Eseciel, Hosea, Daniel dyner,
Roent fynych glod i Dduw'r uchelde[r]
Jona, Amos bur, a Meica,
Yn sicr iawn a Secaria,
'Roedd Ioel yn canu a Malacia, -
Wel dyma demlau Duw bendigaidd,
Mewn gras hylwydd gwir Israeliaid,
A dyma'r puraidd hardd gwmpeini,
Oedd deg eu dawn, trwy lawn oleuni,
Yn canu'n unol cyn ei eni.

5. Fe ganodd Secarias garol,
'Rol geni Ioan Fedyddiwr duwiol,
Pan ddaeth yr angel oddiwrth Fair olau,

Gu ddoniol iaith, fe ganodd hithau;
Yr Ysbryd Glân oedd yn ei llenwi,
Achos gwiw deg i'w chysgodi,
Am fod yr Archoffeiriad ffyddlon,
Blaguryn siriol, rhosyn Saron,
Yn Oen iach hylwydd, yn ei chalon,
Ac yn ngyflawnder yr amseroedd,
Y forwyn fendigedig ydoedd.
Aeth i Feth'lem, Dinas Dafydd,
I'w threthu yn ol iawn ddoniol ddeunydd
Y bur wryfes bu mor ufydd.

6. Ac yno ganwyd ein gwir Eneiniog,
Rhwing ych ac asyn, gwyh iawn Dw'ysog,
Heb gryd na gwely i'r Iesu, ond preseb,
Oedd gywaith hardda', gwir ddoethineb;
Ni bu erioed y fath lawenydd,
A gwiwlan ganu ar blygein ddydd.
Yn yr wybren gan geriwbiaid,
Mwyn lu'n mynegi o'r Nef fendigaid,
Newyddion hael i'r gwael fugeiliaid,
Y [sic.] fod y sanctaidd rasol rosyn
Gwir ei gariad glân flaguryn,
Wedi ei eni gan Fair hynod,
Heb ddim i drin y mwynaidd Drindod
Ond cadacha' am Fab Duw uchod.

7. Ystyria ddyn sy'n llawn o falchder,
A gwel Fab Duw o wlad 'r uchelder
Yn dangos â'i ddeheulaw'n hylwydd,
Y ffordd i wlad Caersalem newydd,
Sef byw mewn cariad gostyngedig
Fel Brenin Ne', mwyn brynwr unig
Dewisiai Mair ei fam ddiniwaid
Letya gyd a'r anifeiliaid,
O flaen tai gwyhion pechaduriaid.

Pan oedd e'n faban yn ei rwymyn,
Uffern oll a godai i'w erbyn,
Herod greulon a'i herlidiau,
A phedair mil ar ddeg a laddai,
A'i gais oedd fawr i geisio ei ddifa.

8. Wel dyma Grist pen pob cadernid
Yn faban bach yn cael ei erlid
O'i wlad ei hun i blith dieithriaid
Rhyfeddol Oen oedd lân ddiniwad;
Wel dyma ef yn llawn o degwch,
Fel bugail da'n myn'd i'r anialwch
I chwilio am ddefaid a gollasa'
Mewn diniweidrwydd i'w dwyn adre'
Fel gwas gweddus ar ei 'sgwydda:
A dyma'r gwir flaguryn goreu,
O rasusol wre[i]ddin Jesse,
Aeth oddiamgylch trwy dosturi,
Er mwyn enaid dyn i wneud daioni,
O'i fawr rogluniaeth mae goleuni.

9. Crist Frenin nef yw'r pen Concwerwr.
Llew o lwyth Juda'r gwir Iachawdwr,
Gorchfygodd holl alluoedd annwn,
Fu arno'n gosod pob temtasiwn;
Crist a'i wyntyll a wna'i'n buraidd,
Un Mair Magdalen, ferch aflunaidd,
A'r hyfryd Haul cyfiawnder tirion,
A'i wres a dodda wraidd ei chalon,
I'r llawr fe reda'n ddagra' heilltion;
Crist sydd Feddyg i'r briwedig.
Crist sydd geidwad gwynfydedig.
Crist yw'r gwir sarff bres fendigaidd,
A roes eli i'r Israeliaid,
Mae fe'n ddigonol Feddyg enaid.

10. Er iddo roddi mawr arwyddion,
Trwy'r hollol ddawn i'r holl leddewon,
Fe safai'r rhain, heb ffydd yn ffyrnig,
Mor noeth a dweud yn wrthodedig:
Dewisent gysgod, yn lle sylwedd
A ddaeth i agoryd porth trugaredd,
I yr[r]u'n gyfaill publicanod
Hyll iawn eu buchedd, llawn o bechod.
Ei fod trwy dwyll yn gwneuthur trallod
Er hyny'r T'wysog glân bendigaidd,
Oedd dra addfwyn a diniwaid,
Yn galw ato'r holl bechaduriaid
A fae dan glwy' hwy gaent dderbyniad,
Cyffuriau i gynnal corph ac enaid.

11. Gwir Haul Cyfiawnder pur yr hael-dad.
A gogoneddus gwiw gynnyddiad;
Y pen a'r parch ar arch-offeiriad,
Ger bron Duw yw'r Oen diniwaid;
Ail Adda o'r Nef, heb gael ei wrando,
Ond ei ddiystyru a'i ddi-ras daro,
Ar ei wyneb Nefol Seilo;
'Rol chwysu'r gwaed wrth daer weddio,
Ei ddianrhydeddu a'i w'radwyddo;
Coroni ei ben â drain mor bigog,
Ei droi mewn gwaed Oen Duw trugarog,
Chwipio corph y grasol D'wysog
A gwial drain a'r fflangell glymog,
Trwy yr heolydd, Iôr dihalog.

12. Er bod ei gorph yn llawn o friwiau,
A gwaed yn rhedeg ar hyd ei ruddiau,
Rhoent arno'r groes i'w chario ei hunan,
Fel Oen bu iawn Eneiniog Canaan:
Mor addfwyn oedd yr hen Ddihenydd,
Yn ymostwng dan ei gystudd,

Mewn ung a blinder yn ei enaid
'Roedd ein Llywydd dan ddwylo'r lleiddiaid,
Hawddgara' o'r gwŷr yn diodde o gariad;
Dioddefodd dyllu ei draed a'i ddwylo,
Ac wrth y pyst dioddefa'i hoelio;
Dioddefodd dros dair awr yn dirion,
I brynu golud gwlad angylion,
Bur iawn hyfrydle i'r Mab afradlon.

13. Wel dyma Grist o ran ein beiau,
O dan yr hoelion dur yn diodde:
Gorchymynai fyn'd a'i fam oddiyno
Rhag edrych arno yn dwys boenydio;
Ac felly ca'dd yr Oen diniwaid
Yno farw dros y defaid;
Bu'r Haul wen glir heb roi goleini,
Pan oedd holl waed Mab Duw yn colli,
Gwnai pawb ei adael mewn caledi;
Dyma'r aberth difrycheulyd,
A ddaeth i lawr o'r nefoedd hyfryd,
I agoryd drws i sanctaidd Seion,
O ystlys wen yr Arglwydd tirion,
I'r llawr fe gerddai gwaed ei galon.

14. Rhown fendigedig foliant beunydd
Am wobr addas y boreu ddydd,
Daeth Iesu Grist o'i wlad sancteiddiol
I'r byd i farw dros ei bobol;
Bob gwir greadur sydd rwymedig
I ganu byth i'w enw'n unig,
Nid oes na sant nac Arch-angylion
Yn eiriol dros bechodau dynion,
Ond sanctaidd Grist yr Arglwydd cyfion
Am hyny cân, os wyt yn Gristion;
Am lwys ammod ail i Simeon
A ga'dd ei ollwng mewn tangnefedd,
'Rol caffael ei Anwylyd sanctaidd
Yn ei freichiau hawddgar fuchedd.

15. 'R hwn a gusanodd Frenin Seion,
 Trwy helaeth iachawdwriaeth dirion,
 Yr oedd ei galon, gallwn ddirnad
 Llawena gŵr, yn llawn o gariad,
 Yn canu ei fawl yr awr ddiwaetha'
 A phren y bywyd yn ei freichiau,
 Ar ben y daeth yn myn'd yn dirion,
 'Rol cael ei lwyr ddymuniad union,
 Fab Duw yn gywlaid yn ei galon,
 Saceus a gafodd yr un cysur;
 Nerthodd eli wrth ei ddolur, -
 Derbyniodd Grist y gwir Fessiah,
 Yn deg i'w dŷ i gyd giniawa;
 Ca'dd wledd wresogaidd nefol seigiau.

16. Cais dithau ddyn sy'n llawn o bechod
 O'th holl ungder gael gollyngdod;
 Os curi di mewn ffydd a chariad,
 Trwy'r Mab anwyl, cei dderbyniad,
 Cofia am geisio'r peth angenrhaid,
 Sef arch, fel Noa, i gadw d'enaid,
 Yn amser haf, cyn delo'r gaua'
 Tra bo hi'n hin a'r haul wresoca';
 Anhwylus hin fydd y nos hwy'a';
 Nid ydyw hoedl dyn ond bregus,
 Meddwl hyn, bydd wyliadwrus,
 Heddyw fel y pren yn impio, -
 Y fory'n ail i'r dail yn syrthio,
 Mewn arch a'i gwedd yn gaeth i'w guddio.

Mae ieithwedd y garol yn ddiddorol. Nid yw'r llinell 'Mae fe'n ddigonol Feddyg enaid' (9.14) yn awgrymu tafodiaith ardal Llanrwst. Awgryma'r odl *gollasa'ladre'* (8.7–8), ynghyd â ffurfiau megis *dagra'* (9.9), mai un o'r tafodieithoedd 'a' sydd dan sylw yma, fodd bynnag. Sylwer hefyd ar y tueddiad i ollwng 'h': *yn Ngrist* 1.1; *mor rydd* 2.9. Awgrymog iawn yw'r ffurf *rogluniaeth* (8.14) sy'n swnio fel un o ffurfiau'r Wenhwyseg – er y gallai nam ar un o'r llythrennau print fod yn gyfrifol o bosibl am hynny. Sylwer hefyd ar y ffurf *agoryd* (10.6, 13.12) sydd i'w chael yng ngeiriadur Thomas Richards, Llangrallo. Nid oes enw awdur yn

gysylltiedig â'r garol, ac er bod digon o wallau yn gyffredinol i'w gweld yn yr argraffiad, tybed oes digon o awgrym o dafodiaith y De yma i'n galluogi i feddwl am darddiad deheuol i'r deunydd?

Summary

Four melodies associated with the title 'Mêl Wefus' were printed by J. Lloyd Williams in the Society's Journal in 1930. Lloyd Williams believed that one of them had no connection with the others and had been mis-named, but this article argues that it is linked to another branch of the same family of tunes, with the earliest example occurring in John Thomas's book of fiddle tunes of 1752 under the name 'Hope to have', and again in Morris Edward's collection of 1778. The early nineteenth-century collector Ifor Ceri suggests that there was a different south Wales form of the tune. It is suggested in this article that the melody may have been used as a tune for a Phygain carol, as noted in a small collection in the Salisbury Library at Cardiff University. The carol has some indications of south Wales dialect which may be a link to the south Wales form of the melody.

NODIADAU

¹ Ifor Ceri (Y Parchedig John Jenkins) LIGC MS 1940 'Melus Seiniau Cymru' 82', 'Pêr Seiniau Cymru' 30, gw. rhestr Daniel Huws yn *Canu Gwerin*, 9 (1986), 54 am fwy o fanylion. Hefyd y fersiwn a atgynhyrchwyd gan Phyllis Kinney yn *Welsh Traditional Music* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru / Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 2011), t. 144.

² Maria Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (Llanymddyfri, 1844), t. 44; argraffwyd fersiwn ffacsimili gan Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru, gyda rhagymadrodd a nodiadau ar y caneuon gan Daniel Huws, yn 1988.

³ Y Parchedig Owen Humphrey Davies 'Eos Llechid', 'Hen Garol-Donau', *Y Cerddor* (1 Hydref 1889), 103.

⁴ Nicholas Bennett, *Alawon Fy Ngwlad* (Y Drenewydd, 1896); adargraffwyd dan y teitl *'Alawon fy ngwlad' = The lays of my land'* (Charleston SC: Nabu Press, 2011).

⁵ Cass Meurig (gol.), *Alawon John Thomas* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2004).

⁶ T. H. Parry-Williams (gol.), *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931), t. 105.

⁷ Morris Edward, Bangor MS 2294, tt. 15, 84.

⁸ Richard Roberts, *Cambrian Harmony* (Dublin / Caernarfon, 1829); adargraffwyd gan Clive Morley Harps (Lechlade, 1985).

⁹ T. C. Evans 'Cadrawd', *Iolo Morganwg* (Llanuwchllyn, 1913), t. 102.

¹⁰ Dafydd Jones, Trefriw, *Blodeu-gerdd Cymry* (Amwythig, 1759).

¹¹ Phyllis Kinney, *Canu Gwerin*, 11 (1988), 28–37; *Canu Gwerin*, 12 (1989), 3–29.

¹² *Y Carol Mawr: I'w ganu ar Hope to Have* (Llanrwst: John Jones, 1848).

Cerddoriaeth i ddwy garol blygain

Un o'r cystadlaethau yn Adran Gerdd Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Gâr 2014 oedd cyfansoddi cerddoriaeth carol blygain i ddau neu dri llais yn y dull traddodiadol. Daeth saith cyfansoddiad i law, a'r safon yn uchel. Wrth gyfansoddi alaw ar gyfer carol blygain mae disgwyl bod iddi naws addolgar, a'i bod ar yr un pryd yn gyfrwng i gyfleu gwybodaeth ysgrythurol a phrif bwyntiau'r ffydd. Diau, byddai'n braf gweld bod rhai o'r hen elfennau cerddorol cyfarwydd yng ngwedd yr alawon newydd gan mai'r cyfarwyddyd penodol oedd i gyfansoddi 'yn y dull traddodiadol'.

Cyhoeddir yma'r ddau ddarn a wobrwyyd: gwaith *Niclas*, sef Martin Davies, a gwaith *Dathlu*, sef Hugh Gwynne, a llongyfarchiadau gwresog i'r ddau gerddor.

Carol Blygain

Robt. ap Gwilym Ddu

Martin Davies

$\text{♩} = 58$ Pennill 1 & 2

Tenor

Alaw

Bas

Aed mol-iant Ie - su mawr_ ar led y ddae - ar fawr, Ter-
gol - ion dae - ar dewch, i'w lys - oedd nef - ol ewch Wel

5

fyn-au'r byd a wel-o'r hyf-ryd wawr_ Tri an-wyd Ceid-wad dyn-ol - ryw yn
dym a'r pryd yn hyf-ryd llaw-en hewch. Fe hwn a wel-wyd gyd-a'r wawr,y

10

1.

wae - laf ddyn an - wyl - af Dduw, O'r wyr - yf hawdd-gar for wyn, Oen
mae ei bres - en - ol - deb mawr Duw un - ig pob dai -

Copyright © Martin Davies 2015

14

add-fwyn, add-fwyn yw: Yr o - ni yn llen - wi Nef a llawr. Y-

19 Pennill 3

styr-iwn hyn i gyd, daw barn - ydd mawr y byd o'r nef i lawr, pwy
yl - iwn am y dydd a ffown drwy gad-arn ffydd Cyn de-lo'r awr, a'r

24

wyr yr awr na'r pryd? Medd un - wn oll o dan y neff yn
llid mor fawr a fydd; Cyd rown y gor - on bur ar ben yr

28

llaw - en i___ ddyr - cha - fu'n llef I'r Ion am ei dir - ion deb,___ a
Ie - su'n un___ ig is y nen, Pob gen - au rhoed og -

32

gweddi ei wyn-eb ef___ Cyd on- iant___ a mol - iant fyth. A- men.

1. Aed moliant Iesu mawr ar led y ddaear lawr,
Terfynau'r byd a welo'r hyfryd wawr;
Trigolion daear dewch, i'w lysoedd nefol ewch,
Wel dyma'r pryd, yn hyfryd llawenhewch!
Fe anwyd Ceidwad dynolryw yn waelaf ddyn, anwylaf Dduw,
O'r wyryf hawddgar forwyn, Oen addfwyn, addfwyn yw;
Yr hwn a welwyd gyda'r wawr, y mae ei bresenoldeb mawr
(Duw unig pob daioni) yn llenwi nef a llawr.

2. Gadawodd lys ei wlad er rhoddi gwir ryddhad
I ddynol-ryw, Oen Duw, ei nefol Dad;
Daeth y Meseia mawr i'w eni gyda'r wawr,
Ei haeddiant ef sy noddod gref yn awr.
Tangnefedd pur drwy gur a gaed a'r ffordd i'r nef yn rhydd a wnaed,
Mae rhinwedd annherfynol, tragwyddol yn y gwaed;
Nid oes a geidw enaid un ond haeddiant Iesu mawr ei hun,
Hwn ydyw'r ffordd i'r bywyd ordeiniwyd i bob dyn.

3. Ystyriwn hyn i gyd, daw barnydd mawr y byd
O'r nef i lawr, pwy wyr yr awr na'r pryd?
Meddyliwn am y dydd a ffown drwy gadarn ffydd
Cyn delo'r awr, a'r llid mor fawr a fydd;
Cyduwn oll o dan y nef yn llawen i ddyrchafu'n llef
I'r lân am ei diriondeb, a gwedd ei wyneb ef;
Cyd-rown y goron bur ar ben yr Iesu'n unig is y nen,
Pob genau rhoed ogoniant a moliant fyth. Amen.

R. Williams 'Robert ap Gwilym Ddu' (1766–1850)

Fe Ddaeth Y Dydd

Yn llawen

♩ = 110

Geiriau a cherddoriaeth gan Hugh Gwynne *

Tenor

Fe ddaeth y dydd, fe ddaeth y dydd; dydd ge-ni'n Gwa - re-dwr fe ga - fwyd la -

Alaw

Fe ddaeth y dydd, fe ddaeth y dydd; dydd ge-ni'n Gwa - re-dwr fe ga - fwyd la -

Bas

Ychydig yn gynt

♩ = 120

8

Tenor

chaw-dwr a cha-darn A - chu-bwr, fe wawr-iodd y dydd. Rhown glod i'r Gor -

Alaw

chaw-dwr a cha-darn A - chu-bwr, fe wawr-iodd y dydd. Rhown glod i'r Gor -

Bas

14

Tenor

u - chaf mewn gair a cherdd - or-iaeth a tha-lwn wr - o-gaeth i Ann - wyl Fab

Alaw

u - chaf mewn gair a cherdd - or-iaeth a tha-lwn wr - o-gaeth i Ann - wyl Fab

Bas

2 20

Tenor

Alaw

Bas

Duw, yn Fre - nin a Phry - nwr, Mes - ei - a a

Duw, yn Fre - nin a Phry - nwr, Mes... ei - a a

24

Tenor

Alaw

Bas

Bar - nwr, Ar - loes - wr ein ffydd; hwn yw y dydd!

Bar - nwr, Ar - loes - wr ein ffydd; hwn yw y dydd!

1. Fe ddaeth y dydd, fe ddaeth y dydd;
dydd geni'r Gwaredwr - fe gafwyd lachawdwr
A chadarn Achubwr, fe wawriodd y dydd.
Rhown glod i'r Goruchaf mewn gair a cherddoriaeth
a thalwn wrogaeth i Annwyl Fab Duw,
yn Frenin a Phrynwr, Meseia a Barnwr,
Arloeswr ein ffydd; hwn yw y dydd!

2. Fe ddaeth y dydd, fe ddaeth y dydd;
angylion a ganodd uwch dyffryn a gweirglodd
a doethion a deithiodd, fe wawriodd y dydd.
Rhown glod i'r Goruchaf mewn gair a cherddoriaeth
a thalwn wrogaeth i Annwyl Fab Duw,
yn Frenin a Phrynwr, Meseia a Barnwr,
Arloeswr ein ffydd; hwn yw y dydd!

3. Fe ddaeth y dydd, fe ddaeth y dydd;
un bychan mewn preseb, yn fywyd o burdeb
gwên nef ar Ei wyneb, fe wawriodd y dydd.
Rhown glod i'r Goruchaf mewn gair a cherddoriaeth
a thalwn wrogaeth i Annwyl Fab Duw,
yn Frenin a Phrynwr, Meseia a Barnwr,
Arloeswr ein ffydd; hwn yw y dydd!

* Diolch arbennig i'r Parch Pryderi Llwyd Jones am ei gymorth a'i gyngor o ran y geiriau

Levi Gibbon, fy hen hen hen dad-cu

Sarah Lewis

Pan oeddwn yn blentyn rwy'n cofio Mam yn dweud bod rhywun yn nheulu fy nhad oedd yn ysgrifennu barddoniaeth – *poems* oedd ei gair hi. (Doedd hi byth yn siarad Cymraeg â fi.) Roedd hi'n cofio taw 'Levi' oedd ei enw, ond doedd hi'n gwybod fawr ddim byd arall.



Anghofiais y cwbl amdano am ugain mlynedd a mwyr. Ond pan ddechreuais weithio ar fy nghoeden deuluol cofiais am y 'Levi' hwn, a phenderfynais ymchwilio hanes teulu fy nhad er mwyn dod o hyd i wybodaeth amdano. Doedd gen i ddim syniad y pryd hwnnw pa mor enwog oedd fy hen hen hen dad-cu!

Y llynedd, deuthum o hyd i enwau rhieni Levi Gibbon (sef John Gibbon 1764–1851 ac Esther Howells 1764–1852) ac, rwy'n gobeithio, ei dad-cu a'i fam-gu ef, ar ochr ei dad. Mae'n bosib, ond nid wyf yn siŵr eto, taw enwau rhieni John Gibbon (tad-cu a mam-gu Levi) oedd John a Margaret, ac mae'n bosib hefyd fod gan Levi frawd o'r enw Jonah.

Ar ôl mynd trwy'r cyfrifiadau a'r dogfennau perthnasol, chwiliais ar-lein am yr enw 'Levi Gibbon'. Disgrifiwyd ef yn *Y Bywgraffiadur Cymreig Ar-lein* fel 'dyn tal, cryf, gwallt a barf ddu fel y frân'.¹ Yn ogystal â hyn, deuthum o hyd i draethawd ymchwil PhD Lilian Parry-Jones, un o fyfyrwyr Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan yn y 1990au, oedd yn trafod Levi Gibbon ynghyd â dau faledwr arall, sef Thomas Harris a Stephen Jones.²

Ynghyd â'r traethawd ymchwil a'r cofnod yn *Y Bywgraffiadur Cymreig Ar-lein*, deuthum o hyd i rai ffynonellau eraill yn ogystal. Yr un fwyaf diddorol yw'r un yn y gyfrol *Famous Fiddlers* gan W. Meredith Morris ac a olygwyd gan berthynas i mi, sef Roy Saer.³ Seiliwyd y llyfr hwn ar lawysgrif sydd mewn dwy ran. Yn y rhan gyntaf, mae Morris yn trafod hanes y ffidil, ac yn yr ail ran y bobl oedd yn canu'r ffidil. Mae'n ei ddisgrifio i hunan fel 'enthusiastic devotee of the fiddle cult'⁴ ac yn trafod Levi Gibbon yn y testun.

Yn ôl Roy Saer, doedd yr eglwys ar hyd y canrifoedd ddim yn rhy hoff o gerddoriaeth ac yn sicr doedd hi ddim yn hoff o gerddoriaeth seciwlar. Cofiais ddywediad enwog y Cadfridog William Booth, sylfaenydd Byddin yr Iachawdwriaeth, 'Why should the devil have all the best tunes?'

Pan ddarganfûm y traethawd ymchwil, roeddwn yn byw yn Llambed ac yn gweithio yn y Brifysgol yno. Euthum yn syth i'r llyfrgell er mwyn dysgu cymaint â phosib am Levi Gibbon a'i faledi. (Dyna'r tro cyntaf i fi *weld* baledi fy hen hen dad-cu.) Mae awdur y traethawd, Lilian Parry-Jones, yn dyfynnu Meic Stephens, 'Saif enw Levi Gibbon o Gwmfelin-mynach, plwyf Llanboidy, sir Gaerfyrddin, ymysg enwau prif faledwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru.'⁵

Dyma fi'n deall, felly, fod Levi Gibbon yn faledwr enwog yn sir Gaerfyrddin yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ei fod yn llunio baledi, yn canu, yn canu'r ffidil, a bod ei faledi yn trafod hanes cymdeithasol, hanes personol, hanes crefyddol, ac ati. Fel y dywed Parry-Jones, 'cymerai Levi Gibbon ddiddordeb ym mhob agwedd ar fywyd.'⁶

Byddai Levi Gibbon yn perfformio, yn ôl y sôn, mewn ffeiriau, marchnadoedd a phriodasau. Ambell waith byddai'n perfformio gyda'i ferched. Roedd yn frwd o blaid cyflwyno gwybodaeth a diddanu pobl ac roedd ganddo ddiddordeb mawr ym mhopeth oedd yn digwydd yn ei gymdeithas ac yn ei fro.⁷

Ganwyd Levi Gibbon ar 10 Mehefin 1806, ac fe'i bedyddiwyd ar 29 Mehefin 1806 yng Nghapel Annibynnol Henllan, Cwmfelin Mynach. Priododd ag Anne Adam ar 26 Rhagfyr 1832 yn eglwys y plwyf Brynach Sant, Llanboidy.

Er iddo gael ei eni i deulu tlawd sicrhawyd iddo addysg dda yn yr Ysgol Ramadeg yng Nghaerfyrddin. Peth anarferol oedd hyn i blant tlawd. Roedd yr addysg yng Nghymru yn wael beth bynnag i'r rhan fwyaf yn ystod ei oes, ond trwy garedigrwydd rhywun yn y pentref, cafodd Levi ei anfon i'r Ysgol Ramadeg. Nid wyf yn gwybod sut na pham y digwyddodd hyn. Efallai fod y cymwynaswr wedi gweld rhywbeth arbennig yn y crwtyn ifanc, ond nid wyf yn gwybod sut roedd yn nabod Levi. Beth bynnag, cafodd Levi Gibbon dri thymor yn yr Ysgol Ramadeg yn y dre.

Dywed y traethawd ymchwil fod Levi Gibbon yn sillafu ei enw ar ei faledi yn y dull Saesneg fel arfer.⁸ Ond yn ôl un faled, ‘Cân newydd, yn gosod allan llwyddiant gweddi, a’r angenrheidrwydd o’i harfer’, fel ‘Gibbwn’ y sillafodd ei gyfenw. Ac ar derfyn baled arall, ‘Cân alarus, ar fuddioldeb golwg naturiol’, ysgrifennodd ei enw bedydd fel ‘Lefi’. Ambell waith rhoddodd yr enw ‘Cwmfelin Mynach’ ar ddiwedd y baledi hefyd. Ni wn pam yr ysgrifennodd ei enw yn Saesneg, efallai am iddo ddewis gwneud hynny o ran ffasiwn neu arfer, neu fod yn rhaid iddo er mwyn cael mynd i’r Ysgol Ramadeg. Saesneg (neu Ladin neu Roeg) oedd iaith dysg. Gwaharddwyd y Gymraeg o ysgolion gramadeg Cymru ar y pryd.

Pan oedd Lefi yn ei ugeiniau, collodd ei olwg. Yn ôl un o’i faledi, ‘Cân newydd, am werthfawrogrwydd golwg naturiol’, digwyddodd hyn pan oedd yn bump ar hugain oed. Clywais dri rheswm gwahanol am yr anffawd hwn, ond ni wn p’un sy’n gywir. Yn ôl un stori, datblygodd torthen mewn gwythien yn ei ben ar ôl iddo chwythu corn a pharodd hynny iddo fynd yn ddall. Dywed stori arall iddo gael ei wenwyno gan galch, ond ni wn sut y byddai hynny wedi digwydd. Mae’r drydedd stori yn honni iddo golli’i olwg trwy salwch ar ôl iddo gysgu mewn gwely llaith. Yn ôl Parry-Jones, ‘canodd Levi Gibbon dair baled am ei gyflwr blin, a gellir dweud bod y rhai hyn ymysg y baledi mwyaf didwyll, teimladwy a thruenus a gyfansoddodd yr hen faledwr.’⁹

Aeth pethau’n anodd iawn i Levi ar ôl iddo golli ei olwg. Treuliodd amser yn y tloty yng Nghaerfyrddin ym mis Chwefror 1844, ac roedd bywyd mewn tloty yn annymunol dros ben. Digwyddodd hyn flwyddyn ar ôl Terfysg Beca ac ysgrifennodd faledi yn disgrifio Beca a’i merched.

O ran fy ngwaith bob dydd, rwy’n ddarlithydd Astudiaethau Crefyddol. Oherwydd hynny, mae gen i ddiddordeb mawr i wybod beth oedd barn Levi Gibbon am grefydd, a beth oedd ei ddaliadau. Yn ôl Cyfrifiad 1851, roedd Anghydfurfiaeth yn gwneud yn well yng Nghymru nag Anglicaniaeth ac mae’n debygol mai capelwr, nid eglwyswr, oedd Lefi. Nid yw’r ffaith iddo briodi yn eglwys y plwyf yn golygu mai eglwyswr ydoedd o reidrwydd. Nid oedd yn bosibl priodi mewn capel ar y pryd. Ysgrifennodd sawl baled am grefydd, gan gynnwys un sy’n sôn am weddi a pha mor bwysig iddo oedd gweddi. Mae hyn yn ddiddorol oherwydd mae ymchwil wyddonol gyfoes wedi dangos bod pobl sy’n

gweddio yn hapusach ac yn iachach nag eraill. Ac yntau'n ddyn dall a fwriwyd i dloty, mae'n debyg fod gweddi yn gynhالياeth iddo.

Gofynnodd Parry-Jones pam, tybed, y cafodd y rhan fwyaf o'i waith ei losgi?¹⁰

Yn ôl *Y Bywgraffiadur Cymreig Ar-lein*, 'Ar ei orau, megis yn ei gerddi personol a chrefyddol, y mae'n canu'n gynnil a diffuant, ond ar y cyfan nid ymboenodd lawer â chreffft ei gerddi, ac y mae'n aml yn troseddu chwaeth dda.' Roedd hiwmor gan Levi Gibbon, efallai gormod ohono! Fel llawer un arall a gollodd ei olwg, credaf iddo ddod i ddeall ac i deimlo pethau mewn ffordd wahanol ar ôl mynd yn ddall, ac os oedd yn ddyn teimladwy cyn hynny, aeth yn ddwysach fyth wedi hynny. Tybed sut y byddai wedi teimlo, a sut y byddai ei faledi ef, petai wedi cadw ei olwg a phe na bai ei ferch wedi marw o'i flaen? Rwy'n meddwl taw cymeriad direidus oedd Levi Gibbon, ond tarddodd ei hiwmor allan o fywyd caled oedd yn aml iawn yn drist.

Y cyfrifiadau ar dogfennau

Euthum trwy'r cyfrifiadau i ddysgu beth a gofnodwyd am Levi Gibbon. (Rwyf wedi cadw at ddull y cofnodion gwreiddiol.)

Yn ôl Cyfrifiad 1841 roedd Levi Gibbon yn byw yn Llanboidy gyda'i wraig, Anne ('Adam' oedd ei chyfenw hi), a thri o blant, sef John (saith oed), Benjamin (pedair oed) ac Esther (blwydd oed). Roedd Levi ac Anne yn 34 oed.

Yn ôl Cyfrifiad 1851 roedd yn byw ym mhlwyf Llanwinio mewn tŷ neu stryd o'r enw Dan-y-bryn. Nid oedd y plentyn John yno, ond roedd y ddau arall, Benjamin (14 oed) ac Esther (11 oed), yn byw gyda'u rhieni. Hefyd, roedd dau blentyn arall wedi cyrraedd, sef Mary (naw oed) ac Anne (pedair oed). Erbyn hyn roedd Levi ac Anne yn 46 oed. Bu farw Esther y flwyddyn ganlynol, 13 Mehefin 1852, yn ddeuddeg oed. Yn ôl y cofnod marwolaeth, yr achos oedd 'consumption' neu'r ddarfodedigaeth.

Yng Nghyfrifiad 1852 y gwelais fod Levi Gibbon yn ddall. Mae'r dogfennau'n dweud fel hyn:

Rank, Profession or Occupation: Pauper – Fiddler.

Whether blind or deaf and dumb: Blind.

Dyna'r tro cyntaf i fi gael gwybod bod fy hen hen hen dad-cu wedi colli ei olwg. Teimlais yn drist iawn er imi wenu pan welais taw 'fiddler' oedd ei swydd!

Mae Cyfrifiad 1861 yn dangos bod Levi yn byw ym Mlaenwaun Cottage, heb swydd ac yn '*blind*'. Disgrifir Anne, ei wraig, fel 'lab's wife' ac ar ddiwrnod y cyfrifiad roedd un ferch Anne (14 oed) yn byw gyda nhw. Bu farw Levi Gibbon cyn y cyfrifiad nesaf, ym mis Gorffennaf 1870. Bu farw ym Mlaen-waun yn 1870 o'r ddarfededigaeth ('consumption' yw'r gair ar y cofnod marwolaeth fel yn achos Esther). Cafodd ei gladdu ym mynwent y Bedyddwyr yng Nghapel Ramoth, Cwmfelin Mynach, ac rwyf wedi bod wrth ei fedd sawl gwaith.

Yng Nghyfrifiad 1871, mae Anne, gweddw Levi, yn cael ei disgrifio fel 'Ag lab widow'. Roedd yn byw ym Mlaenwaun yng nghwmni ei merch ieuengaf, Anne (24 oed), a hithau'n briod gydag un plentyn, sef Mary (yn flwydd oed).

Mae Cyfrifiad 1881 yn disgrifio gwraig Levi Gibbon fel 'mother-in-law, 'almswoman' a 'widow' oedd yn byw yn 'Blaenwaun shop'. Roedd hi'n byw gyda'i merch Anne, James Saer (gŵr Anne) a'u plentyn. Dyna sut y daeth y cyfenw 'Saer' i'r teulu. Priododd Anne, merch ieuengaf Levi, ŵr o'r enw James Saer a newidiodd hi ei henw. Rhoddodd Anne a James yr enw 'Levi Gibbon Saer' ar un o'u meibion. Roedd Levi Gibbon Saer yn dad-cu i fy nhad, ac roedd fy nhad gydag ef pan fu farw yn 1952 yn Ffynone Lodge, Maenordeifi. Mae fy nhad yn cofio rhedeg i nôl ei dad ef, sef Willie Lewis, fy nhaid a mab yng nghyfraith Levi Gibbon Saer, pan syrthiodd Levi Saer, a chofnodir enw fy nhaid fel hysbysydd ar y cofnod marwolaeth. Cofnodwyd achos y farwolaeth fel 'arteriosclerosis', neu galedu'r gwythiennau. Ni wn a roddwyd yr enw 'Levi' ar neb arall yn y teulu.

Yn y cyfrifiad olaf cyn marwolaeth Anne (1891), cofnodwyd ei bod hi'n 'mother in law' a 'widow', a'i bod hi'n byw gyda'i merch, gŵr ei merch a'i hwyron. Bu farw gwraig Levi Gibbon bron ddeng mlynedd ar hugain ar ei ôl. Roedd hi'n 92 oed. Claddwyd Levi ac Anne yn yr un bedd.

Rwy'n mynd i bennu'r sylwadau hyn gyda disgrifiad Lilian Parry-Jones o fy hen hen dad-cu, 'Roedd yn ddrych perffaith i ni o gyflwr y werin bobl yn nyddiau cythryblus y ganrif.'¹¹



Bedd Levi ac Anne Gibbon

Atodiad

Mae'r erthygl uchod yn seiliedig ar bapur a roddwyd yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas Alawon Gwerin yn Fron Olau, Tabor, Dolgellau, fis Medi 2014. Yn ystod y ddarlith fe ganwyd dwy o faledi Levi Gibbon: canodd Ben Riddler y faled 'Cân newydd am werthfawrogrwydd golwg naturiol', a chanodd Stephen Rees 'Cân newydd, sef hanes bywyd Becca a'i merched'. Cyfansoddodd Ben a Stephen alaw newydd yr un, y naill er mwyn canu'r faled am Becca a'i merched, a'r llall ar gyfer canu'r garol yn disgrifio'r profiad o fod yn ddall. Diolch i'r ddau am gael cyhoeddi'r alawon yma, gyda geiriau'r baledi.

Fronoleu

Stephen P. Rees

Doh: F

l d : r : m f : m : r d : m : t l :

l d : r : m f : m : r m : s : fe m :

m l : l : s m : s : fe r : s : fe m :

r d : r : m f : m : r d : m : t l :

Cân newydd, sef hanes bywyd Becca a'i merched

1. Holl fechgyn a merched drwy'r ardal o'r bron,
Rwy'n galw pob oedran, o bob man, yn llon,
Y tlawd a'r cyfoethog, yn serchog eich gra'n,
Dewch yma gael clywed rhyw hanes ar gân.

2. Wrth ddechrau llefaru rwy'n gweiddi ar go'dd,
Nid wyf yn enllibo na beio'n un modd,
Ond coffa rhyw fenyw sydd heddiw mewn bod,
Nid wyf wedi'i chlywed na'i gweled erio'd.

3. Ei henw yw Becca, mi waedda'n dra hy,
Does yma un fenyw am wryw fel hi;
Mae'n waeth na chwningen i esgor ar blant,
Mae ganddi o ferched, rwy'n clywed, chwech cant.

4. Ac eto, mae'n esgor ar ragor o hyd,
Os pâr hi fel yna hi lanwa'r holl fyd;
Pan elo'r hen famaeth heb ddant yn ei gên
Bydd Becca'r pryd hynny [i] gael *baby*'n rhy hen.

5. Er c'nifer o ferched a ddygodd i'r byd
Mae Becca, hyd heddiw, yn weddw o hyd;
Does obaith cydymaith i'r eneth rwy'n siwr,
Mae Becca'n cenhedlu mewn gwely heb ŵr.

6. Mi glywais am Becca, mi fentra, gan waith,
Erioed am ei phriod ni chywais un waith;
Mae Becca a'i merched fel gwybed drwy'r wlad,
Wel dwedwch, os gellwch, pwy ydyw eu tad.

7. Rwy'n crynu ar droeon rhag ofon ei chwrrdd,
Beth ydyw hi'n hidio fy nghornio fel hwrdd;
Ond eto, rwy'n deall fod Becca mor gall
Na chymer hi ganpunt am flino dyn dall.

8. Cadd Becca ei geni yng Nghymru, fel fi,
Yn faban corfforol ym mhlwyf Manachlog-ddu;
Fe dyfodd i fyny yn uchel ei phen,
Fe gym'rodd lawn feddiant o Gate'r Efel-wen.

9. Bu yno fel *Lady*'n teyrnasu am dro,
Fe wnaeth i'r Cwnstabil garlamu ar ffo;
Fe dorrodd y tollborth yn gandryll i'r llawr
Fel gallom, heb dalu, gael tramwy'r ffordd fawr.

10. Mae llawer yn gweiddi, a hynny wrth chwant,
O eigion eu bola 'da Becca a'i phlant;
Rwyf finnau, fel *baby*, yn crynu mewn cro'n
Heb ganmol na chablu, rwy'n tewi â sôn.

11. Mae well gennyf dreulio diwrnod neu ddau
Heb brofi tobacco na smoco na chnau,
A gwasgu fy mola, mi waedda'n dra hy,
Na chlywed fod Becca am ymladd â mi.

12. Mae Becca, rwy'n sicr, o natur mor frwd,
Pe bawn yn ei digio gwnâi siglo fy nghwd;
Mae'n blino'r gŵyr mawrion ar droeon yn drwm,
Hi all, pe bai'n leicio, sibedo dyn llwm.

13. Er maint yw'r bugeilia sy ar Becca a'i phlant
Mae'n myned â'i llwybr, mae'n eglur, wrth chwant;
Hi dorrodd y tollbyrth wrth heol Llwyn-du
Do, dair gwaith neu bedair, hen leider yw hi.

14. Bu yno Gwnstabl, a hefyd bolis
A llawer o soldiers mewn pŵer am fis
Er rhwystr i Becca ledrata'r hen glwyd
Fel caffo pob *gatemán* bryd cyfan o fwyd.

15. Mae arfau rhyfela gan Becca'n barhaus,
Cadd llawer eu clwyfo wrth waitio'r hen bais;
Bu rhywun yn rhywle dan ddannau'r llif draws,
Wel, gartre mi safaf heb fara na chaws.

16. Mae Becca a'i merched mor ffalsed â'r *fox*,
Mae'n torri rhai clwydi mor fân â phren *claw*;
Pan fyddo bugeiliaid yn gwylied man draw
Mae Becca man obry yn torri'n ddi-fraw.

17. Mae Becca a'i theulu yn saethu rip rap,
Gwnaeth goeled o friwyd o dollborth Pwll Trap;
A hefyd Trefechan, fy hunan sydd dyst,
Wel, nawr mi ofynna, ai Becca yw'r Trust?

18. Er addo gwobrwyon i ddynion am ddweud,
Parhau i ledrata mae Becca yn wneud;
Daeth Merchant, y mochyn, i mofyn can punt
Am haeru celwyddau heb eisiau'r fath hynt.

19. Mae hwnnw mewn british mwy mentrus na fi,
Gall Becca, pan gwrddo, ei droedio fel ci;
Aeth dau o'r gymdogaeth yn sglyfaeth i'r jail
O achos 'r hen fochwr a'i ddwndwr di-sail.

20. Roedd rheini'n wastadol yn hollol ddi-frad
Heb ddysgu lledrata 'da Becca a'i had;
Fe chwariodd y gyfraith yn odiaeth o'u plaid,
Fe saif y gwirionedd mewn rhinwedd wrth raid.

21. Daeth rheini o'r carchar newn ffafar a chlod,
Maent nawr yn eu cartref mor llon ag erio'd;
Er llechu dan gloeon fel lladron am dro
Maent heddiw, rwy'n credu, yn canu di do.

22. Does ofon gwasanaeth, na chyfraith, na dim,
Mae Becca'n benuchel ar gefen cel gwyn;
Er maint yw'r lledrata wnaeth Becca a'i rhyw
Does undyn, er syndod, yn gwybod pwy yw.

23. Mae Becca fel bwci'n gweithredu 'r hyd nos,
Bydd llawer yn chwerthin weld terfyn ei ho's;
Hi aeth â'i chenhedlaeth i Arberth mewn grym,
Fe dynnodd y caerau a'r ietau i'r dim.

24. Holl hanes Rebecca, mi waedda'n dra hy,
Nis gallaf ei gofio na'i goffa i chwi;
Yng Nghymru a Lloegr mae llawer o swae
O achos fod Becca'n lledrata fel mae.

25. Yn awr rwy'n terfynu fy ffwdan a'm ffair,
Mi garwn weld heddwch, os coeliwch fy ngair;
Boed llwyddiant yn wastad i gariad, heb sen,
Fod rhyngom a Becca, i waedda, Amen.

Levi Gibbon, Cwmfelin, a'i cant

Yn rhydd Ben Ridler

Fy holl gy - feill - ion hawdd - gar Eich ffafr - ar rhowch un waith, I

wran - do ar - nai'n traethu, Fydd hy - nny ddim yn faith, A - drodd - af, os ca'i ge - nad, Fy

mhro - fiad oll yn llwyr, A'r modd mae ar y deill - ion Fy ngha - lon glyd a'i gwyr.

Diwedd glo

Hyn yw fy ngwir ddy - mu - niad A'm bw - riad i, A - men

Cân newydd am werthfawrogrwydd golwg naturiol

1. Fy holl gyfeillion hawddgar
Eich ffafr rhowch un waith,
I wrando arna i'n traethu,
Fydd hynny ddim yn faith;
Adroddaf, os ca'i gennad,
Fy mhrofiad oll yn llwyr
A'r modd mae ar y deillion,
Fy nghalon glyd a'i gwyr.

2. Rwy'n cofio am fy magu
A dysgu'r A B C,
Rwy'n cofio gallu darllen
Yn gywrain fel chwydwi:
Rwy'n cofio gweld cyfeillion,
Rhaf ffyddlon yma a thraw,
Ond nawr nis galla'i gweled
Â'm llygaid mwy na'm llaw.

3. Rwy'n cofio gweld fy mrodyr
Yn eglur iawn cyn hyn,
A gweled fy chwiorydd
Heb orchudd arna i ddim;
Rwy'n cofio, er fy ngofid,
Wynepryd 'Nhad a Mam:
Byth mwy ni chaf eu gweled
Er taer ddymuniad am.

4. Rwy'n cofio gweld y ddaear
A'i hawddgar roddion hi;
Rwy'n cofio gweld y moroedd
Lle suddodd llawer llu;
Rwy'n cofio gweld y llongau
A'u hwyliâu'n nofio'r don:
Byth mwy ni chaf eu gweled,
O dyma blaned drom.

5. Rwy'n cofio gweld yr heulwen
Fel pelen uwch fy mhen
Yn rhoddi lawr ei lewyrch
A'i wres o entrych nen;
A'r lleuad a'i goleuni
Sy'n llywodraethu'r nos:
Byth mwy ni chaf eu gweled
Â'm llygaid trwy fy oes.

6. Rwy'n cofio gweled cannoedd
O sêr y nefoedd fry;
Rwy'n cofio gweled lliwiau'r
Cymylau fel chwychwi;
Rwy'n cofio gweld y fellten
Yn gwau trwy'r wybren faith,
Ond nawr nid wyf yn gweled,
O dyma blaned gaeth.

7. Rwy'n clywed ac arogl
A hynny fel chwychwi,
Rwy'n teimlo, pan yn effro,
'R hyn fyddo'n cwrdd â mi:
Er meddu ar synhwyrâu
(Addefaf ger eich bron),
Rhaid cael fy nghynorthwyo
Cyn teithio'r ddaear hon.

8. Does neb all gydymdeimlo
Â mi sy'n wael fy llun
Tra byddo yn feddiannol
Ar olwg glir ei hun;
Ond os goleuni natur
Â yn dywyllwch du,
Pryd hyn dewch i amgyffred
Mor fawr yw 'ngholled i.

9. Trwy boen, pan o'wn yn fachgen,
Yn bump ar hugain o'd
Mi gollais fy nau lygad
A'm teimlad is y rhod;
Er dioddef poen a chystudd,
O'r newydd ce's fy ngrym,
Ond mwyach hyd fy meddrod
Ni chaf fi ganfod dim.

10. Mi dreies lawer meddyg
Er cynnig cael gwellhad,
Doedd fawr o fodd i'm cynnal
Dan ofal Mam a 'Nhad;
Er treio pob rhyw ddyfais,
Fy hanes ro'f i chwi,
Rwy'n gorfod byw ym mhobman
Mewn cyflawn dwyllwch du.

11. Does gennyf un gynhaliaeth
Na gobaith am ei chael,
Ond byw trwy gael cynhorthwy
O ddwyllaw'r Cymry hael;
A'r sawl fo'n rhoddi ceiniog
Yn serchog nawr i fi,
Gobeithio daw hi'n ddwbl
Heb drafferth nôl i chwi.

12. Nid oes i mi, mae'n sicr,
Ddim fawr o gysur mwy,
Rhaid imi dreulio'm dyddiau
Mewn eisiau fel yr wy':
Yr hwn ro'es fodd i weled
Aeth ffwrdd â'm llygaid i:
Cael benthg ein golygon
Gan Dduw a wnaethom ni.

13. Chwi sydd yn meddu llygaid
I weled bro a bryn,
O prynwch, rwy'n ddiniwed,
Gan un sy heb weled dim;
Er clywed sŵn a siarad,
O deimlad rwy'n coffáu,
Nis gallaf eich adnabod
Na gwybod p'odd y mae.

14. Amynedd mi ddymuna
Tra yma ar y llawr,
Er 'mod yn methu gweled –
Mae hyn yn golled fawr;
Ond eto rwy'n ystyried,
Os dyma 'mhlaned i,
Mae'n rhaid ei gwasanaethu
Heb geisio'i chroesi hi.

15. Er chwerwed ydyw'r yrfa,
Mi dreulia'r bywyd hwn
A myned ryw ddiwrnod
I'r beddrod, mi a wn;
A'r enaid byw anfarwol,
I oesir bythol fyd,
O Arglwydd, rho barodrwydd
Yn ebrwydd i ni gyd.

16. Wel, nawr yw'r amser gorau,
Cyn delo Angau glas,
I lefain yn wastadol
Am gael achubol ras,
Fel galloch chwi a minnau
Gael chwarae'r delyn aur
Ymhlith y dedwydd deulu
Sy'n moli baban Mair.

17. Rwyf weithian yn distewi
Gan weiddi: dewch ymla'n
I ddangos eich tosturi
Drwy brynu hyn o gân;
Pob llwyddiant a'ch dilyno
Tra'n rhodio is y nen,
Hyn yw fy ngwir ddymuniad
A'm bwriad i. Amen.

Levi Gibbon, Cwmfelin

Summary

Levi Gibbon (1806–70) was a well-known Carmarthenshire ballad singer. He was fortunate to receive some education, but, having lost his sight in his twenties, and having lived for a short time in Carmarthen workhouse, he took to a life as a ballad singer, performing in fairs and market-places. At his best he could write plaintive and intense poetry, but much of his output is, as might be expected, concerned with everyday events to suit popular taste. This short article outlines the author's search for Levi Gibbon, her great-great-great grandfather. Information gleaned from Census returns reveals him as a fiddler who with his wife Anne, whom he married in 1832, had at least five children. Anne outlived her husband by almost thirty years, dying at the age of 92. Both are buried in the same grave at the Baptist chapel in Cwmfelin Mynach, near Llanboidy.

NODIADAU

¹ <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-GIBB-LEV-1807.html?query=levi+gibbon&field=name>

² Lilian Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Levi Gibbon, Thomas Harris a Stephen Jones, yn ogystal â Rhai Baledi Eraill o'r Un Cylch', Traethawd PhD Prifysgol Cymru (Llanbedr Pont Steffan), t. 1882.

³ W. Meredith Morris, *Famous Fiddlers* (Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, 1983).

⁴ Morris, *Famous Fiddlers*, t. 3.

⁵ Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986), t. 29.

⁶ Parry-Jones, t. 1124.

⁷ Parry-Jones, t. 1124.

⁸ Parry-Jones, t. 1126.

⁹ Parry-Jones, t. 1125.

¹⁰ Parry-Jones, t. 1126.

¹¹ Parry-Jones, t. 1126.

Llyfryddiaeth

Y Bywgraffiadur Cymreig, 'Gibbon, Levi', <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-GIBB-LEV-1807.html?query=levi+gibbon&field=name>

Stephens, Meic (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986)

Morris, W. Meredith, & Saer, D. Roy (ed.), *Famous Fiddlers* (Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, 1983)

Parry-Jones, Lilian, 'Astudiaeth o Faledi Levi Gibbon, Thomas Harris a Stephen Jones, yn ogystal â Rhai Baledi Eraill o'r Un Cylch', Traethawd PhD Prifysgol Cymru (Llanbedr Pont Steffan), 1992

JOHN LLOYD WILLIAMS, PRIFATHRO GARNDOLBENMAEN

Rhai Atgofion

Eleanor Roberts

Fe benodwyd John Lloyd Williams (1854–1945), y casglwr alawon gwerin, yn brifathro Ysgol Gynradd Garndolbenmaen yn 1875, yn fuan ar ôl sefydlu'r ysgol. Ganwyd fy nhaid yn 1874 a John Lloyd Williams oedd ei brifathro, gan iddo ddal y swydd am gyfnod o ddeunaw mlynedd yn dilyn ei dymor hyfforddiant yn Y Coleg Normal, Bangor.

Yn ei gyfrol *Atgofion Tri Chwarter Canrif* (Aberystwyth, 1941–4), mae John Lloyd Williams yn sôn am fy hen daid, Owen Owens, Tyddyn y Graig (1828–1917):

Y mwyaf ei athrylith yn y Set Fawr oedd Owen Owens, Tyddyn y Graig. Nid oedd amheuaeth am ei allu meddwl, ei ddychymyg byw, nac ychwaith am ei ysbrydolrwydd a'i dduwioldeb. Ac eto, er fy mod yn ei barchu ac yn meddwl yn uchel o'i alluoedd, ni themlais erioed ias o hoffter tuag ato. Dyn melancolaidd, *introspective* ydoedd, a hynny'n peri ei fod yn ddi-ynni os nad yn hollol ddiog gyda phethau'r capel. Ni ddôi byth ar gyfyl yr Ysgol Sul. Hwyrach y gellid maddau hyn iddo oherwydd pellter ffordd; ond ni haeddai faddeuant am ei ddiystyrwch o ymdrechion yr ieuencid ...

Ond, gwrandewch ar Owen Owens yn darllen – anodd i chwi byth glywed dim mor effeithiol. Y drwg yw mai'r *Pregethwr* ydyw ei hoff lyfr. Edrychwch arno'n darllen ddechrau'r cyfarfod gweddi. Y mae un troed iddo ar y fainc un penelin ar ei ben glin a'i law ar ochr ei ben. Clywch dôn ei lais pan gytuna â'r 'pregethwr' mai Gwagedd a gorthrymder ysbryd ydyw popeth. A fu erioed gymaint o siom? Wrth wrando ar ddyfnder ei argyhoeddiad, teimlaf yn sicr bod bywyd yn faich ac mai gwell fyddai llwyr ddiddymdra. I greu teimlad o'r fath ynof fi y sydd ar hyd fy oes yn obeithydd, rhaid bod rhyw huawdledd cyfrin yn narlleniad y ffermwr hwn – gwnâi actor di-guro.

Ond gwrandewch ar yr anobeithydd yn gweddio ... Dyma ei sylw pan yn cychwyn angladd fy ewythr, William Pierce, Ty'n y Weirglodd. Cafodd fy ewythr ei ladd yn y chwarel gan adael gwraig ac wyth o blant – yr hynaf tuag wyth oed a'r ieuengaf yn ddim ond ychydig fisoedd. Ar ei liniau ar garreg y drws yr oedd Owen Owens, wrth yr elor, a thyrfa fawr yno; rhagolygon y teulu yn ddu, a dim i'w ddisgwyl ond tipyn o'r plwy' a dim iawndal y pryd hwnnw. Dyma un sylw a gofir gan lawer:-

“Rwyf Ti wedi teitlo dy Hun yn Farnwr y Weddw a Thad yr amddifad. Dyma iti gyfle heddiw i ddangos Dy Hun. Ma' gin Ti lawar o wragedd gweddwon a phlant amddifaid ar Dy fwrdd a ma' nhw i gyd yn edrach yn dda gin Ti. Dyma i Ti wyth eto o blant amddifaid a gweddw isio'u cadw a gofalu amdanynt, a dyma ni'n eu cyflwyno nhw i Ti. Gofala am dany'n' nhw. 'Ran hynny mi wyddom y gwnei, ac y gallwn dy drystio Di y byddi'n un a'th Air.”

Ychwanegodd Mr. Thomas: “Byddwn yn mynd gyda 'Nhad i edrych am y weddw a chlywais hi'n dweud na phetrusodd hi ddim am y dyfodol gan fod Owen Owens wedi rhoi 'i gofal hi a'r plant 'iddo Fo'. Ond dylid clywed Owen Owens ei hun gyda'i lais ariannaidd a chilir a gwfreiddiol gan deimlad byw i sylweddoli nerth a dylanwad ei weddiau.¹

Chwarter o ysgol a gafodd Owen Owens. Yn ystod ei gyfnod yn ben blaenor bu tipyn o helynt ynglŷn â chael organ neu 'injian ganu' i'r capel. Nid oedd Owen Owens yn gefnogol i hyn ar y dechrau, ond plygodd i'r drefn ar ôl iddynt ganu'r dôn 'Hyfrydol' i gyfeiliant organ.

Bu John Lloyd Williams yn brifathro Ysgol Gynradd Garndolbenmaen am ddeunaw mlynedd. Does dim sôn am ei briodas yn unman ac ni wyddys dyddiad y seremoni. Pan ddathlodd ei ben blwydd yn 90 oed cafodd ei groesawu'n ôl i'r ysgol a chyflwynwyd ffon i'r cyn-brifathro.



*Owen Owens, Tyddyn y Graig
(1828–1917) a'i wraig, Catherine*

Ymatebodd yntau trwy ddweud, 'Defnyddiaf hi pan fyddaf yn hen!'

Ceir hanesyn am John Williams, Ty'n Gorlan, yn eistedd wrth ochr fy nhaid yn yr ysgol a Mr Watts, yr Arolygydd Ysgolion, yn dod at yr hogyn bach uniaith a gorchymyn, 'Make a sentence, boy, from the words "I never." ' Dyma John Williams yn ymateb trwy ddweud, 'I nefer cym to scwl agen.'

Isod, fe geir llun o gyn-ddisgyblion Ysgol y Garn tua'r flwyddyn 1885 a phawb ond un yn gyn-ddisgyblion i John Lloyd Williams. Yr eithriad oedd Owen Jones, Penrallt – brodor o Sir Fôn a dyn lladd moch. Tynnwyd y llun yn 1949 pan oedd nifer ohonynt o gwmpas y pedwar ugain oed, gan gynnwys Hugh, brawd ieuengaf John Lloyd Williams.



Rhes gefn o'r chwith i'r dde: William Jones, 'William y Pandy' a fu am gyfnod yn 'bupil titshiar' i J. Lloyd Williams; aeth yn athro i'r Potteries; ar ôl ymddeol daeth yn ôl i'r Garn i Bryn Eifion at ei frawd Robat. Bu'n flaenor uchel ei barch yn Jerusalem M.C. William Jones (arall) bu'n gofalu am fferm Bryn Efail Isaf; collodd fab ar y môr yn 1945. Owen Jones Penrallt; dyn lladd moch; un o Sir Fôn; Hugh Owen, fy nhaid, tad fy mam, a anwyd ar 2 Mawrth 1874, y gelwid John Lloyd Williams ganddo yn 'Mistar'; mab i Owen Owens Tyddyn-y-Graig. Robert Jones 'Curly Bob', mab Y Garreg Gron. Harri Morris; dyn dall; gweithiai

ar fferm Bryn Efail Uchaf; Eisteddai dros y ffordd imi yng nghapel Jerusalem (M.C.) gan estyn botwm gwyn o 'Extra Strong'.

Rhes flaen: John Evans, Glyn Mair (Angorfa), a'i gap ar ei ben-glin – torasai ef ei goes, ond mendiodd, a byddai pawb yn ei edmygu'n fawr. Mary Evans, Ty'n Weirglodd, a fyddai bob amser yn gwisgo du; buasai'n byw yn Lerpwl ar ôl priodi, ond dychwelodd i'w chartref, Ty'n Weirglodd, at Janet, ei chwaer. Maggie Jones, Mur Cwyp – bûm yn siarad gydag wyres Maggie Jones yn ddiweddar; claddwyd gŵr Maggie Jones ym mynwent Bethel, ger Penmorfa, ar ddiwrnod eithriadol oer nôl yn 1947, pan oedd popeth wedi rhewi; wedi cludo ei arch at y bedd, darganfuwyd bod y bedd yn rhy fychan a bu ffwdan mawr. Mary Williams, Lôn Las; un o'r selogion. Hugh Williams Penybont; arlunydd; brawd ieuengaf J. Lloyd Williams.

Mae pedair o ferched eraill nad oes sôn amdanynt yn y llun ond a oeddynt yn ddisgyblion ar yr un adeg â'r rhai a welir yma: Elisabeth Jones (oedd yn cadw siop yn y Garn, ac yn Arolygwr y Festri am hanner can mlynedd – pinsiodd fi unwaith am beidio â chau fy llygaid er bod fy nwy law hefo'i gilydd) a Maggie Harris (chwaer Elisabeth Jones); Ann Evans, sef gwraig John Evans Glyn Mair (Angorfa); ac Ellen Jane Jones Tŷ Capel.

Yn Archifdy Gwynedd yng Nghaernarfon ceir hanes Cantata a berfformiwyd yn Ysgol Garndolbenmaen, nos Sadwrn, 21 Rhagfyr 1878.² Roedd y cyngerdd i ddechrau am hanner awr wedi chwech a cheid mynediad yn gynwysedig ym mhris llyfryn a argraffwyd gan J. R. Edwards, Stryd Fawr, Caernarfon. Pris y seddau gorau oedd swllt. Teitl y gantawd oedd 'Brenhines y Blodau', y gerddoriaeth gan Mr G. F. Root, a'r geiriau wedi eu rhyddgyfieithu o'r Saesneg. Am gynnwys y gantawd dywedir:

Y mae y Blodau yn cyfarfod a'u gilydd i ddewis Brenhines. Tra mae'nt gyda'r gorchwyl hwn y mae person sydd wedi blino ar y byd yn dyfod i'r lle i chwilio am neulltuaeth oddiwrth ei ofalon a'u siomedigaethau. Y mae y blodau yn siarad am Gariad a Dyledswydd, ac y mae'r Meudwy yn penderfynu dychwelyd yn ol a cheisio mwynhad.

Rhan I

Gwelwch y blodau, y tlysiion flodau/Sy'n hebrwng y gwanwyn
gwyrdd/I wisgor meusydd a pheraidd lysiau/A theg feillion
prydfferth hardd./Y Rhosyn Coch, gyda'r deg Lili wen/ynghwr
y goedwig a blyga ei phen/A Llygad y dydd yn wylaidd a thlws/A
wena mor siriol wrth riniog y drws.

Gwelwch y blodau.

NODIADAU

¹ J. Lloyd Williams, *Atgofion Tri Chwarter Canrif*, cyfrol IV (Aberystwyth, 1945), tt. 268–70. Mae'r ymdriniaeth ar Owen Owens yn ymestyn o dudalen 268 hyd 272.

² Archifdy Gwynedd (Caernarfon) XM9249/1–5.

Dr Meredydd Evans (1919–2015)

Mae'r lluo teyrngedau a dalwyd eisoes yn brawf o fesur y golled a gafwyd yng Nghymru ym marwolaeth Merêd yn 95 oed ar 21 Chwefror. Ond cwbl briodol yw ychwanegu at y teyrngedau ar dudalennau *Canu Gwerin*, oherwydd bu ef a'i briod Phyllis yn ganolog i fywyd y Gymdeithas ers blynyddoedd lawer.

Mewn rhai cymdeithasau etholir Is-lywyddion ar sail eu henwogrwydd ac mewn ymgais i roi statws i'r gymdeithas. Yn ein cymdeithas ni fe'u hetholir i gydnabod eu cyfraniad i'r maes, a phrin y gwnaeth neb gyfraniad mwy yn y blynyddoedd diwethaf na Merêd, gan ddal ati yn ifanc ac yn finnog ei feddwl tan y diwedd. Cofiw'n am ei bresenoldeb yn ein cynadleddau, y cyfrannu bywiog a deallus



awdurdodol i bob trafodaeth, y canu melyn a difyr, ac ehangder a dyfnder ei wybodaeth am eiriau ac alawon. Ac roedd y cyfan yn cael ei rannu'n barod â phawb oedd yn mynd ar ei ofyn. Soniai'n aml ac yn edmygus am J. Lloyd Williams, ac ef mae'n siŵr oedd Lloyd Williams ein cyfnod ni.

Eto i gyd, Merêd fyddai'r cyntaf i gydnabod ei fod yn rhan o bartneriaeth ymchwil gwbl arbennig, ac amhosibl yw synied am ei gyfraniad i fyd canu gwerin yng Nghymru heb feddwl am Phyllis hithau. Rwy'n cofio cwrdd â'r ddau mewn cinio Gŵyl Ddewi yn 1980. Cyflwyno alawon gwerin, eu cefndir a'u hanes yr oedden nhw y noson honno, ac mae'r darlun ohonyn nhw'n canu gyda'i gilydd yn sefyll yn glir yn y cof. Gyda'i gilydd y cynhyrchon nhw'r cyfrolau sydd wedi bod yn *best-sellers* i'r Gymdeithas dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf, cyfrolau a adargraffwyd fwy nag unwaith: *Caneuon Gwerin i Blant* (1981), *Canu'r Cymry* (1984), *Canu'r Cymry II* (1987), *Hen Alawon: Carolau a Cherddi* (1993), a'u darlithiau Amy Parry-Williams, *Canu Jim Cro* gan Merêd yn 1990 ac *O Lafar i Lyfr* gan Phyllis yn 1995. Coron ar ymdrechion dyfal a dihafal y ddau oedd cyfrol Merêd, *Helar Hen Ganeuon*, a gyhoeddwyd gan Y Lolfa yn 2009, ac sy'n olrhain hanes y casglu cynnar, a chyfrol orchestol Phyllis, *Welsh Traditional Music*, a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn 2011. Mewn gwirionedd mae'r ddwy gyfrol yn perthyn i'r ddau ohonynt. Ac er mai enw un neu'r llall a welir yn y llu cyfraniadau sy'n britho tudalennau'r cylchgrawn, mae'r ddau'n llefaru gyda'i gilydd ym mhob un o'r rheini hefyd.

Soniodd llawer amdano fel gŵr o egwyddor gadarn; ond roedd hefyd yn hynod hael a goddefgar. Arwydd o'i haelioni oedd ei barodrwydd i drosglwyddo i'r Gymdeithas holl freindaliadau *Helar Hen Ganeuon*. Ei garedigrwydd mewn gair a gweithred y byddwn yn ei gofio pan fydd y sôn am bethau eraill wedi pallu. Ac eto, ni fydd peidio â sôn, achos bydd y gwaith y mae Merêd a Phyllis wedi ei gyflawni yn sylfaen i waith pawb arall tra pery'r diddordeb mewn canu gwerin yng Nghymru.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Phyllis, Eluned a'r teulu cyfan, a diolchwn am y fraint fawr o gael ei nabod a chael ei gwmni cyhyd.

Rhidian Griffiths

Dear Dr Ifans,

I have just returned from a break away in Snowdonia, staying at several caravan sites on the trip. Although we live in North Wales, Snowdonia National Park never fails to enthral us with its beauty and a chance to do some family research. So you may wonder why I have written to you? It is because I have recently learned something more about Llew Tegid (1851–1926).

I was browsing in a shop in Dolgellau, and a booklet took my eye, *The Welsh Folk-Song Society: A whole Century* published in 2006. I found the references to Llew Tegid, and I purchased the book as it was in both Welsh and English. I already knew he had an involvement with the society but not that he was a founder member and their first treasurer! I hope I am not wasting your time and that you do not mind me writing to you, but I thought I would share with you if you don't mind, why I have an interest in Llew Tegid.

My maternal grandmother, Annie Jones (1888–1985), was born in Rhosllannerchrugog near Wrexham, her father was an Evan Jones, elder brother to Lewis Davies Jones (Llew Tegid). So I have now established he was my great-uncle! I remember my grandmother saying to me when I was a young boy that there was a Welsh Bard in the family, and a minister, both of repute. She always wanted me to go into the church but that was not to be.

As a young boy one does not always take a lot of notice and unfortunately all was lost to me when she died. Until, just over a year ago I received from a cousin of mine a copy of what I can only describe as perhaps a draft of a newspaper article or perhaps an oratory at a funeral; it was entitled 'THE PASSING OF A NOTED FAMILY'. It had been given to him by my grandmother.

The document opens with the words, 'About eighty years ago, in the hungry forties, two pious parents Lewis and Betty Jones were bringing up a growing family ...'. I took this to be the 1840s and so adding 80 years suggests that the article was written sometime in the 1920s. And so my search began using the names of all the family names mentioned in the text.

The document lists family names including those who went to Patagonia, but one significant entry was 'William Jones (bardic name Penllyn) a retired

Congregational minister in our town and a well-known poet and posthumous writer throughout Wales, his elder brother Llew Tegid was buried last August in Bangor'. This firmly dates the document to 1927 as I then found that Llew Tegid died in 1928 in Bangor. With this date, and after further investigation of the census records and marriage records, it was established that Llew Tegid was my great-uncle and so this spurred me on to find out more about him.

William Jones 'Penllyn', his brother, I discovered was a minister in Old Colwyn. He wrote the biography of Llew Tegid *Bywgraffiad Llew Tegid* published in 1931. I have obtained a copy of this book but unfortunately I cannot read the Welsh text, although I have translated some of it. A friend of mine has said he will help me with it sometime? It's embarrassing to think that I have lived in Wales since I was 4 years old and that I now find I come from such a Welsh pedigree, and also my wife's family now deceased were all Welsh-speaking, but my wife cannot speak Welsh either!

I have researched Llew Tegid and his family quite a bit and last year visited Bangor University Archives to look at his papers that are stored there: it was at this point that I became proud to be a descendant of such an important man. I also have electronic copies of songbooks, volumes 1 & 2, co-written by him (the words are by him) for school use.

Two weeks ago I went to Bala, and to Llangower, and found Ffridd Gyman, the house where Llew Tegid was born. It was quite a hike up from Llanuwchllyn where we were staying, but it was in a beautiful place overlooking Llyn Tegid – it was no wonder Llew Tegid was a Welsh Bard, inspired by this view no doubt. The house is currently undergoing a restoration and I was glad to see it was not a ruin. I understand that his work is still used in the National Eisteddfod, and indeed his song 'Farewell to Llangower' has been recorded by a male voice choir – I need to seek a copy of this too.

What I am very disappointed in was that in Bala I could not find any references to such an important local Welsh figure. The Tourist Information Centre was shut and (once I found it) the Heritage Centre was also closed and this was over the August Bank Holiday weekend too. I shall endeavour to send a copy of this email to both these organisations to ask if there is any information in their archives about him, as I would like to see it if there is, and why they do not

reference Llew Tegid in the many leaflets one can pick up around Bala? The Visit Bala website does not list him either under People of Bala, and I think it's a shame. I urge them to please put this to right as soon as they can!

I thank you for taking the time to read this email and I hope it is of interest to you,



Kind regards,

Christopher Graham Carter
32, Mercia Drive,
Mynydd Isa,
Mold,
Flintshire.
CH7 6UH

Cynhadledd Fron Olau 2014

Diolch i Mrs Eleanor Roberts a Mr Elwyn Griffiths am y lluniau o Gynhadledd 2014.







* 2091915 *

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.